

ECO'R WYDDFA

Rhif 198

CHWEFROR 1994

Pris 25c

YR ECO'N DOD I OED

Ddeunaw mlynedd yn ôl, yn Chwefror 1976, yr ymddangosodd y rhifyn cyntaf o'r *Eco*. Yn Ebrill eleni bydd yr *Eco* hefyd yn dathlu cyhoeddi'r 200fed rhifyn. Mae'r pwyllgor llywio a'r swyddogion eisoes yn cynllunio rhifyn arbennig ar gyfer Ebrill i ddathlu'r ddau achlysur ac os oes gennych unrhyw syniadau cofiwch gysylltu.

EHANGU CYLCHREDIAD YR ECO



John Owen wrthi'n recordio yn stiwdio Penrhyn Bach.

Oes yna gysylltiad rhwng Barcud, Bryn Meirion a Phenrhyn Bach! Rydym yn gyfarwydd â chynnyrch lliwgar ac amrywiol Stiwdio Barcud yng Nghaernarfon. A gwyddom am y rhaglenni safonol a ddaw o stiwdio'r BBC ym Mryn Meirion, Bangor. Ond wyddech chi fod yna stiwdio yn Crawia, yng nghartref John a Catherine Owen ym Mhenrhyn Bach? A bod un o wasanaethau mwyaf gwerthfawr yr ardal hon yn cael ei baratoi yno? Mae llawer ohonom yn gyfarwydd â gweld John Owen yn ymlwybro gyda'i gi tywys tua Chapel y Cysegr ar gyfer moddion y Sul. Cafodd John ei fagu yng Nghapel y Glasgoed, ond bu'n flaenor uchel iawn ei barch yng Nghapel Cysegr ers blynnyddoedd erbyn hyn. Ac mae'n weithiwr diflino ar ran Cymdeithas y Deillion. Mae'n weithgar iawn gyda'r Gwasanaeth Tapiau ar gyfer y Deillion. Mae'n dda gwybod ei fod yn darparu, ymysg cyhoeddiadau eraill, dâp o gynnwys *Eco'r Wyddfa* i unrhyw un o ddeillion Arfon a fynni gopi ohono. Daw criw selog o ddarlennwyr draw i'r stiwdio — llofft wedi ei haddasu — i ddarlenn newyddion pentref ac erthyglau'r *Eco*. Wedi'r gri arferol,

'Gwylwch eich pen,' wrth gamu tua'r stiwdio, daw'r darlennwyr dan ofal 'y giaffar'. Mae John Owen yn trin y teclyn recordio mor gelfydd ag unrhyw dechnegydd sain. Ac mae ei eiriau priodol a chartrefol wrth gyflwyno'r darlennwr yn cyfrannu at agosrwydd y cynllun. Wedi i'r gwaith recordio gael ei wneud ym Mhenrhyn Bach bydd John yn trosglwyddo'r tapiau i Swyddfa Cymdeithas y Deillion ym Mangor. Yno y gwneir copïau i'w danfon at y gwrandawyr. Dyma wasanaeth gwirioneddol werthfawr, ag asiad perffaith rhwng 'rhoi' y darlennwyr a 'derbyn' y gwrandawyr. Ond cyn i mi gael fy nghyhuddo o fynd dros ben llestri, fe drof at gyfraniad Catherine Owen i'r gwaith. Mae gwir groeso i'w gael ganddi ym Mhenrhyn Bach. Mae'r sgwrs, ac ambell seiad, cyn ac ar ôl y recordio, yn felys gyda phaned a theisen. Rhaid dweud hefyd bod dŵr stiwdio John yn well na dŵr Bryn Meirion. Oherwydd gweithgaredd John Owen, mae cylchrediad yr *Eco* yn cael ei ehangu, a rhagor o bobol yn cael cyfle i'w fwynhau. Gallwn ninnau felly ymuno â'r bobol hynny wrth ddiolch iddo am ei gymwynas.

TÎM LLEOL YN EHANGHU GORWELION (gan Y Draenog)

Does dim byd gwaeth i unrhyw dîm na theithio oddi cartref a chael bod y gêm wedi cael ei gohirio wedi'r cwbl. Dros yr wythnosau diwethaf achosodd y glaw gryn drafferth. Mi glywais i am un o dimau'r 'topia 'na' yn wynebu gêm draw ym Mhorthmadog yng nghanol y dilyw. Mae pwyllgor gweithgar gan y clwb lleol, ac er lles yr hogia dyma un o selogion y 'gôl gwaelod' yn ffonio un o swyddogion Porthmadog i weld os oedd modd chwarae'r gêm. A dyna fo'n ffonio Iwan Jones, Cadeirydd Clwb Porthmadog ac aelod o'r Welsh F.A. Gwneud petha'n iawn yntê! Ond gan mai ymwneud â'r tîm cyntaf yn bennaf y mae Iwan fe roddodd rif telefon ysgrifennydd tîm Cynghrair Sain clwb Porthmadog iddo. Ymlaen â'i dasg yr aeth y pwyllgorddyn hynaws gan ffonio i holi a oedd modd chwarae'r gêm. Atebwyd y ffôn yn syn, ac wedi sgwrs go ddryslyd fe gyfaddefodd y llais ar ben arall y ffôn na fedrai o helpu. Dim llawer o siâp ar Glwb Porthmadog, meddech chi? Wel, na! Wedi'r cwbl, does dim disgwyl i rywun o DDE IWERDDON wybod am hynt a helynt gêm bêl-droed yng Nghynghrair Sain! Tybed a oedd y swyddog gweithgar y clwb uchelgeisiol hwn yn cael 'trial run' ar gyfer y dydd pan fydd y tîm yn chwarae yng nghystadlaethau Ewrop?

EHANGU GORWELION YR ANTUR

Ganol dydd, ar ddydd Llun, Ionawr 17, casglodd torf fawr o gyfeillion o bell ac agos i gymeryd rhan yn agoriad swyddogol adeilad gweinyddol newydd Antur Waunfawr. Mae'n debyg fod y ffaith mai Bryn Terfel oedd yn cyflawni'r gwaith yn gyfrifol, i raddau, am faint y dorf.

Uchelgais Antur Waunfawr yw rhoi gwasanaeth i'r ardal a'r cylch, ac yng nghyswllt yr uchelgais hwnnw rhoddi cyfle i rai ag angantais meddyliol, fel pawb arall, gymeryd rhan yn yr ymdrech.

Cafwyf £80,000 o'r Swyddfa Gymreig i godi'r adeilad er mwyn i'r bythynnod a ailadeiladwyd gan weithwyr yr Antur gael eu defnyddio i'w priod waith fel tai i bobl fyw ynddynt. Trwy roddi'r arian 'roedd cydnabyddiaeth fod Antur Waunfawr yn ffactor bwysig yn ffyniant economaidd y cylch.

Yn ystod y gweithrediadau talwyd teyrnged i waith Antur Waunfawr gan Mr David Evans, o'r Swyddfa Gymreig; Mr Martin Weinberg, gŵr ynghlwm wrth Strategaeth Cymru i rai â nam meddwl; Mr D. Vernon Jones a Miss Lucille Hughes o Gyngor Sir Gwynedd.

Er mor niferus y gynulleidfa 'roedd cyfeillion yr Antur wedi paratoi gwledd ar eu cyfer — a digon i bawb.

Mae datblygiadau cyffrous o ran yr Antur yn yr arfaeth — disgwylir y bydd gwaith ar barc bywyd gwyllt, lle gall pobl hamddena a mwynhau eu hunain, ddechrau yn fuan.

ECO'R WYDDFA

Rhif 198
Chwefror 1994

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(0248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWYR

Gwynnaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (674669)

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

Gareth Williams, Angorfa,
Rhes Rhyhallt, Llanrug (673683)

Tony Storey, Awel y Mynydd,
Ceunant, Llanrug (650600)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Tŷ
Hen, Waunfawr (650599)

TREFNYDD GWERTHIANT

Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn,
Ffordd yr Orsaf, Llanrug (676846)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (676733)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAWRTH 3

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, CHWFROR 21
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MAWRTH	MAWRTH 3	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn	650200
EBRILL	MAWRTH 31	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	EBRILL 28	DEINIOLEN	Mr W. O. Williams	871259
MEHEFIN	MAI 26	BRYNREFAIL	Miss Lowri P. Roberts	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 30	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(0248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 8	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 29	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 27	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	RHAGFYR 1	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

Llythyrau

Chwilio am Oriawr

Annwyl Olygydd,

Hoffwn glywed gan unrhyw un o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa sy'n berchen ar oriauwr boced a werthwyd yn hen siopau Sir Gaernarfon, yn enwedig Porthmadog, Cricieth, Pen-y-groes, Beddgelert a'r Waunfawr. Os nad yw enw'r siopwr a'r pentref i'w gweld ar yr wyneb yna gellir dod o hyd iddynt ar y perfedd drwy godi a thynnu'r ceuad sydd amdano. Cynnigir pris da iawn am oriauwr mewn unrhyw gyflwr.

Yn gywir,

GLYN ROBERTS
Clegyr, 9 Stryd yr Wyddfa,
Porthmadog, Gwynedd
Ffôn: (0766) 514617

GOFAL YN GYMRAEG

Talgarreg
Carneddi
Bethesda
Gwynedd LL57 3SG
Ionawr 14eg, 1994

Annwyl Olygydd,

Cynhelir CYFARFOD ARBENNIG am 11 o'r gloch fore Sadwrn, CHWFROR 12fed, yng NGWESTY FICTORIA, LLANBERIS er mwyn cynllunio'r ymgyrch i Gymreigio'r gwasanaeth iechyd yng Ngwynedd.

Y bwriad yw egluro'r sefyllfa bresennol a'r datblygiadau diweddaraf, tynnu rhaglen ac ystyried dulliau o weithredu.

Buasem yn gwerthfawrogi eich presenoldeb a gofynnwn yn garedig i chi roi gwybod i'ch cyfeillion a'ch cydweithwyr am y cyfarfod a'u hannog i ddod. Hefyd cydaelodau eich cymdeithas / mudiad / sefydliad / cyngor.

Diolch i chi am eich cydweithrediad ac edrychwn ymlaen at gynulliad niferus.

RHAID SYMUD Y GWARTH A'R ANGHYFIAWNDER PRESENNOL.

Yr eiddoch yn gywir,

IEUAN WYN
Y Parchg JOHN OWEN

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Adroddiad o Gyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd yn Llanberis

Byddai pobl ifanc Llanberis yn falch o gael bar coffi neu ganolfan a fyddai yn agored iddynt bob nos o'r wythnos. Dyna ddywedodd criw o'r bobl ifanc eu hunain mewn Cyfarfod Cyhoeddus yn Llanberis neithiwr (Ionawr 26).

Daeth tua 40, yn cynnwys cynrychiolaeth gref o'r Clwb Ieuencid lleol, i'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Theatr Gorffwysfa. Yr oedd y cyfarfod wedi ei alw er mwyn trafod y ddarpariaeth sydd ar gyfer pobl ifanc yn y pentref.

Dewiswyd John Pritchard yn gadeirydd y cyfarfod. Eglurodd ef bod y cyfarfod wedi ei alw o ganlyniad i'r drafodaeth a gafwyd ar dudalennau Eco'r Wyddfa ers mis Hydref y llynedd. Wrth gyfeirio at y drafodaeth honno esboniodd bod mwy nag un cyfrannwr wedi gosod her i bobl Llanberis i geisio gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y bobl ifanc. Ymgais i ymateb i'r her honno oedd y Cyfarfod Cyhoeddus, meddai. Pwysleisiodd hefyd bod yna amryw o fudiadau ac unigolion yn darparu gweithgareddau ar gyfer yr ifanc yn y pentref, a llawer ohonynt wedi gwneud hynny ers blyneddau lawer.

Yr oedd aelodau'r Clwb Ieuencid yn credu bod angen mawr yn Llanberis am ryw fath o gaffi neu ganolfan a fyddai ar agor bob nos o'r wythnos. Byddent hefyd yn hoffi gweld datblygiad ar gyfer ieuencid lleol ar safle Glynrhonwy. Ac yr oeddent hefyd yn awyddus i gael rhagor o ddisgos yn Llanberis.

Eglurodd Mr Dewi Roberts, Swyddog Maes gyda Gwasanaeth Ieuencid Gwynedd, a'r Cynghorydd Noel Davies bod y toriadau ar gyllid yr awdurdodau lleol yn golygu ei bod ar hyn o bryd yn anodd iawn cael nawdd ariannol i ragor o gynlluniau ieuencid. Ond yr oedd y ddau yn ffyddiog bod yna ffynonellau ariannol eraill ar gael: cyfeiriodd Mr Roberts, er enghraifft, at y ffaith i far di-alcohol Canolfan Ieuencid Caernarfon gael grant oddi wrth Gronfa Plant Mewn Angen.

Ond mynegwyd y farn yn glir gan fwy nag un bod angen cael cynlluniau pendant cyn meddwl am gyllid. Rhaid wrth syniadau pendant am y math o ganolfan y gobeithir ei chael. Pwysleiswyd mai'r bobl ifanc eu hunain a allai drafod y mater hwn orau, fel eu bod nhw yn teimlo o'r cychwyn cyntaf mai eu canolfan nhw fyddai unrhyw ganolfan a syfydlid.

Penderfynwyd bod aelodau'r Clwb Ieuencid yn mynd ati i drafod yn fanwl yr hyn yr hoffent ei weld mewn canolfan neu gaffi. Awgrymwyd y byddai'n syniad da iddynt wahodd pobl sydd â phrofiad o ganolfannau o'r fath mewn ardaloedd eraill i rannu syniadau â nhw. Cytunwyd y byddai'r drafodaeth hon yng ngofal arweinwyr y Clwb Ieuencid.

Bwriedir cynnal cyfarfod arall pan fydd y bobl ifanc wedi trafod a llunio argymhellion manwl am yr hyn a garant ei weld. Bydd angen codi pwyllgor (a fydd wrth gwrs yn cynnwys cynrychiolaeth dda o'r ieuencid) i geisio dod â'r cynlluniau i ben.

Cafodd Ann Beard ei dewis yn gysylltydd, i alw cyfarfod pan fydd yr ieuencid wedi llunio awgrymiadau pendant.

Y gobaith ydi y bydd y drafodaeth neithiwr yn arwain at ddatblygiadau newydd a chyffrous a fydd er budd i bobl ifanc yn Llanberis. Gellir deall awydd pobl ifanc i gael lle cysurus i gyfarfod ynddo gyda'r nos.

CAMERÂU NEWYDD YR ECO

Mae gan yr Eco bellach BUMP o gamerâu i hwyluso pethau i chwi fan fydd angen lluniau o weithgareddau lleol ar gyfer tudalennau'r papur. Mae un yn cael ei gadw yn Llanrug gan Gwynnaf Hughes (677263); un yn Llanberis (John Pritchard, 872390); ac un arall ym Methel (Richard Ll. Jones 0248 670115).

Mae angen cartrefi cysurus i'r ddau arall, un yn ardal DEINIOLEN a'r llall yn ardal WAUNFAWR. Os ydych chi'n barod i gynorthwyo'r Eco drwy ofalu am un o'r camerâu, cysylltwch â GWYNDAF HUGHES (677263) am fwy o fanylion.

CLWB ERYRI

Croesawodd yr Is-lywydd, Mr Evan Parry, Ceunant, yr aelodau i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd ar nos Wener, Ionawr 7, yng Ngwesty Erw Fair, Llanberis. Estynnwyd croeso arbennig i'r aelod newydd, Mr Ralph Jones, Llanberis, a hefyd i Mr Arfon Jones, Caernarfon, a ymunodd â'r rhengoedd er nad oedd yn ei lawn iechyd arferol. Cyflwynwyd siaradwr y noson, Mr Gwyn Hefin Jones, Brynrefail, gan y Cadeirydd, Mr Cledwyn Pritchard Jones, Llanberis. Cafwyd traddodi difyr ar hanes hynt a helynt Ysgol y Babanod, Brynrefail, o'i cychwyniad yn 1908 hyd ddydd ei chau, gan nodi fel y mae tuedd mewn hanes i ailadrodd ei hun hyd yn oed ym myd cyfnewidiol addysg. Diolchwyd i'r siaradwr gan Mr Emyr Jones, Caernarfon.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr un lle ac ar yr un amser ar nos Wener, 4 Chwefror, pryd y ceir anerchiad gan Mr Alwyn Evans, Caernarfon, gyda Mr Emyr Jones yn y gadair.

O GAETHIWED I RYDDID

Mae cynlluniau ar y gweill gan Gantorion Elidir a Chôr Ysgol Gynradd Bethel i berfformio'r ddrama-gerdd 'O Gaethiwed i Ryddid'. Meddai Robin Jones, yr arweinydd:

'Ma' hwn yn mynd i fod yn gynhyrchiad uchelgeisiol eto. Yn dilyn llwyddiant ysgubol perfformiad o'r 'Croeshocliad', a gynhaliwyd yng Nghapel Engedi, Caernarfon yn ystod y Pasg y llynedd, mi fuodd 'na lawer iawn yn fy holi, gan gynnwys pobol o ardal Dyffryn Conwy a thu hwnt, — "Be' da'ch chi'n neud nesa?"

'Mi roedd 'na rai o aelodau'r côr wedi bod yn ymwneud â'r cynhyrchiad o 'Mwy Nag Aur' yn ôl yn 1988, ac yn teimlo y buasan nhw'n licio ca'l trio rhwbath tebyg eto. Felly, dyma benderfynu ar waith Roger Jones eto, ac addasiad Elizabeth James

'O Gaethiwed i Ryddid'.

'Ma'r cynhyrchiad yn gyfuniad o feim, dawn a chanu, ac mi faswn i'n licio rhoi cyfle i bobol ifanc i ymuno hefo ni yn y gwaith. Dwi'n chwilio am denor ifanc — mae gynnon ni soprano, alto a bas — ar gyfer rhannau pedwarawdau, ac ati. Hefyd mi faswn i'n licio ca'l rhoi cyfle i ddrymiwr, un i ganu'r ffidil, ac un arall i ganu'r gitâr i ymuno hefo ni. Ma' 'na le i fwy yn y côr hefyd wrth gwrs (sy'n cyfarfod bob nos Iau yn Ysgol

Gynradd Bethel).

Os oes gennych chi ddiddordeb i ymuno yn y gweithgarwch yma, a berfformir yn Theatr Seilo, Caernarfon ar 20, 21 a 22 Mehefin eleni (ma' 'na rai yn holi am docynnau yn barod!), yna cysylltwch â Robin Jones ar (0248) 670140.

Bydd yr elw a wneir o'r perfformiadau yn mynd tuag at achosion da lleol — fe gyfranwyd dros £4,000 i wahanol achosion da y llynedd.

CYFARFOD CYHOEDDUS GOFAL YN GYMRAEG

Gwesty Victoria, Llanberis
Dydd Sadwrn, Chwefror 12fed
am 11 o'r gloch y bore

Siaradwyr yn cynrychioli Mudiadau
a Chymdeithasau Cenedlaethol
CAMAU NESAF YR YMGYRCH
I GYMREIGIO'R GWASANAETH
IECHYD YNG NGWYNEDD

EISTEDDFOD MÔN — BRO GORONWY 1994

GŴYL DDRAMA — MAI 24-28, 1994

CYSTADLEUAETH ACTIO:

1. Agored

2. Ieuenctid (dan 30 oed)

Gwobrau: £125, £100, £75

CYSTADLEUAETH TLWS Y DDRAMA

Drama un act y gellir ei pherfformio mewn neuadd bentref.

Gwobr: Tlws a £150

Dyddiad cau: 28 Chwefror 1994

Beirniad: George P. Owen, Caerdydd

Manylion gan yr Ysgrifennydd:

R. T. Jones, Lluet Wen, Benllech, Ynys Môn LL74 8UB.

Ffôn: (0248) 852993

ADRAN LLÊN

CYSTADLEUAETH Y GADAIR: Awdl heb fod dros 150 o linellau ar y testun 'Yfory' neu 'Terfynau'.

Gwobr: Cadair a £150

CYSTADLEUAETH Y GORON: Dilyniant o gerddi ar y testun 'Gwerthoedd' neu 'Dylanwadau'.

Gwobr: Coron a £150

CYSTADLEUAETH Y FEDAL RYDDIAITH: Cyfrol o ryddiaith ar y testun 'Bro'.

Gwobr: Y Fedal Ryddiaith a £150.

CYSTADLEUAETH DEYRNGED I BEDWYR LEWIS JONES: Casgliad o enwau lleoedd, ffynhonnau, afonydd, brynau, lonydd, ac yn y blaen, mewn unrhyw ardal, gyda map ac esboniadau os oes modd.

Gwobr: £50 ynghyd â chopi o'r gyfrol *Yn Ei Eifen* wedi ei rhwymo'n gain.

ANRHYDEDDU PRIF LENOR IEUENCTID: Cystadleuaeth ar gyfer Blwyddyn 12 a 13 Ysgol Uwchradd, a rhai sydd rhwng 16 a 19 oed ac wedi gadael yr ysgol:

BARDDONIAETH: Cystadleuaeth rhif 21 — 'Hiraeth'

RHYDDIAITH: Cystadleuaeth rhif 16 — Stori Fer — agored. Cyflwynir Tlws Anrhydedd i enillydd y naill neu'r llall o'r cystadlaethau hyn.

Y cyfansoddiadau i fod yn llaw'r Ysgrifennydd Cyffredinol, Y Parchedig Ithel Gibbard, Gwelgoed, Maes Llydan, Benllech, erbyn MAWRTH 14, 1994

ADRAN GERDD

DALIER SYLW: Cywriad ar dudalen 33, Rhif 16

CORAU MERCHED:

DWY gân hunan-ddewisiad, yn hytrach na 'O, Dyred Dewi' ac UN hunan-ddewisiad.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun — Gwener

10.00 — 3.30

I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch

Llanberis 870922

neu **Bangor 351427**

Wavell Roberts

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

CHWILOTA

BRIWSION

DECHRAU BLWYDDYN



Croeso'n ôl wedi'r gwyliau! Daeth nifer o sylwadau i law yn ystod gwyliau'r Nadolig ynglŷn â rhai o'r storiâu yn rhifynnau Tachwedd, Rhagfyr a Nadolig/Ionawr. Derbynias nifer o sylwadau (ac addewidion am sylwadau!) yn ystod yr wythnos ddiwethaf hon, a bydd yn rhaid i mi grynhoi'r rheiny erbyn y rhifyn nesaf. Am y tro, felly, dyma ychydig o friwsion i ddisgwyl pryd.

Newid enwau tai

Fel roedd Eco'r Nadolig ar fynd i'r wasg daeth galwad ffôn oddi wrth Mr Elwyn Jones o Dunstable ynglŷn â rhai o hen enwau ar dai yn Llanrug. Yr hen enw, meddai, am 'Y Fron' oedd Belle View. Adeiladwyd 'Belle View' a 'Park Villa' tua diwedd y ganrif ddiwethaf gan ŵr o'r Waunfawr — a hoffai roi enwau Saesneg go grand ar ei dai! Yn 1904 prynodd tad Mr Jones y tŷ o'r enw Belle View a newid yr enw i 'Y Fron'. Aeth Mr Jones ymlaen hefyd i egluro mai yn Ty'n y Gorlan (y Lyndale presennol?) yr oedd y siop gwerthu papur newydd, ac mai'r Tŷ Fry presennol oedd siop Hudson — groser.

Cefais un darn o wybodaeth ddiddorol iawn ganddo, sef mai Llyn Doctor Pugh oedd yr enw a glywodd ef ei ewythr yn galw Llyn Doctor — sydd islaw i gaeau chwarae presennol Ysgol Brynrefail. Credai mai rhyw Ddoctor Pugh a'i frawd a adeiladodd yr argae cerrig er mwyn troi'r dŵr o'r afon i weithio'r felin. Tybed oes rhywun a fedr roi gwybodaeth am y Doctor Pugh hwn?

Daeth gair gan Mrs W. A. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug, yn diolch fod pobl bresennol y pentref yn llawer tebycach o roi enwau Cymraeg ar eu tai. Rhestrodd hithau nifer o dai yn y pentref gydag enwau Saesneg — *Manchester House, Castle View, Tharsis House, Birmingham House, Norfolk Villa, Avondale, Hedsor Villa, Anchorage* — rhai ohonynt yn parhau ar ddefnydd. Tybed o ble y cafodd yr hen bentrefwyr y

syniadau am rai o'r enwau hyn?

Sawl mynwent sy'n Llanrug?

Pedair a bod yn fanwl-gywir. Y fynwent blwyfol o amgylch yr eglwys; mynwent yr eglwys a'r fynwent 'rydd' wrth ei hochr — dyna dair ar yr un safle. A'r bedwaredd yw mynwent Capel Mawr. Ond mae rhai wedi eu claddu o'r tu allan i'r mynwentydd hyn hefyd. Wyddoch chi fod dau wedi eu claddu o flaen Capel y Bryngwyn? Mae cofgolofn rhwng dau ddrws ffyrnt y capel i goffâu cyn-weinidog. Yno y claddwyd y Parchg Griffith Thomas, ac yno hefyd y claddwyd ei wraig. Mae ei cherdyn mwyrin (*mourning card*) yn fy meddiant, ac mae'n darllen fel hyn:

'Er Cof Serchog / Margaret Thomas / Annwyl briod y diweddar Barch Griffith Thomas / Bryngwyn, Llanrug / Yr hon a fu farw Hydref 28ain, 1895 / yn 90 mlwydd oed, / ac a gladdwyd ym meddrod ei phriod yn y Bryngwyn / Tachwedd 2il.'

Ble mae Llyn Yngan?

Yn ôl at lythyr diddorol Mr Stanley Roberts, Hafod Wen, Llanrug, ynglŷn â hen enwau ar gaeau a ffermydd yr ardal yn dyddio o 'rentals' gwahanol drefi canoloesol yn Arfon. Yn rhestr Gwely Gwrgene ap Ithell (Gwrgen ap Ithell) ceir y cofnod hwn: *'Dolviethyn inxta Llyn Yngan'*. Mae'n ymddangos mai 'Dol Fledwyn' yw'r enw cyntaf. Ond gall hefyd fod yn Dol Eiddyn, sef hen enw ar y lle sy'n fwy cyfarwydd i ni heddiw fel y Seiont Nurseries ym Mhontrug. Mae Afon Seiont yn creu dolen anferth

yma. Tybed a oedd Llyn Yngan yn enw ar bwl yn yr afon yn y fan hyn? Oes unrhyw bysgotwr ag enwau ar ran o'r afon yn y parthau islaw Pontrug?

Diolch hefyd i Miss O. M. Davies o Fangor (Llanberis gynt) am anfon rhagor o'i hatgofion. Mae hanes 'Amddifad yn Limbo'

yn ymddangos mewn man arall yn y rhifyn hwn o'r Eco.

Mae amryw wedi cysylltu ynglŷn â theulu Francis, Llanberis. Gobeithiaf grynhoi'r wybodaeth erbyn y rhifyn nesaf. Cofiwch anfon gair i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (0286) 673515.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Llongyfarchiadau i Carys, Bryn, a Michael ar eu dyweddïad.

Diolch: Dymuna Mrs Margaret Williams, Goleufryn, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd; hefyd diolch i staff Ward Dulas am eu caredigrwydd.

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs H. M. Roberts, 1 Bryn Gro, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith.

Croeso adref i Mrs Annie Hughes, Bryn, ar ôl iddi dderbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan iddi. Bydd croeso mawr i nain adref gan Carys, Terry a Keith.

Diolch: Dymuna Mrs Katie Watkins, Dolwen, ddiolch yn fawr iawn i bawb o'i theulu, ffrindiau a chymdogion, am eu ffyddlondeb iddi yn ystod y flwyddyn. Diolch am y cardiau, dymuniadau da, y blodau a phob ymweliad â hi ym Mhlas y Bryn; a diolch i staff a phlant Ysgol Cwm-y-glo am gofio amdani y Nadolig. Dymuna hithau Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

Undeb y Mamau: Cafwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yn Hafan Elan, Llanrug, ar nos Lun, 10 Ionawr. Cafwyd gwasanaeth byr i ddechrau'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs M. Latham, Mrs Marjorie Roberts a Mrs Menna Roberts. Bydd cyfarfod y Ddeoniaeth yn cael ei gynnal ar 24 Ionawr. Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r pwyllgor a gynhaliwyd ym Mangor ar 11 Tachwedd.

Y gŵr gwadd oedd Mr Peter Taylor a ddangosodd ffilmiau ar ei wyliau yn Sbaen a Gibraltar y llynedd. Yn gofalu am y te roedd Mrs J. Side, Mrs S. Birbeck a Mrs Craven, a diolchwyd iddynt ac i Mr Taylor gan Mrs Kathleen Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Edwards ac fe'i henillwyd gan Mrs B. Jones. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi. Bydd y cyfarfod nesaf ar 7 Chwefror.

Yr Urdd: Nos Lun, Rhagfyr 20, gwahoddwyd yr Adran i ymuno ag adran Llanrug am ddisgo Nadolig ac er gwaethaf yr eira fe fwynhaodd y plant y noson yn fawr iawn. Diolch i Mr Robin Williams am ei wahoddiad a'r croeso cynnes. Diolchwyd iddynt gan Arwyn. Y tymor yma bydd y plant yn gwneud gwaith llaw ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ac os oes rhywun o'r pentref â diddordeb yn y maes hwn fe fydd croeso mawr i chwi ddod atom. Byddwn yn cyfarfod yn y Ganolfan bob nos Lun, rhwng 6 a 7 o'r gloch.

Ysgol Cwm-y-glo: Blwyddyn Newydd Dda i chwi. Anfonwn ein cofion caredig at Mrs Alwen Jones, athrawes Blwyddyn 3 a 4. Gobeithiwn ei bod yn gwella ac y bydd yn ôl gyda ni cyn bo hir.

Braf iawn oedd cael croesawu pedwar o blant newydd i'r Ysgol ar ddechrau'r tymor. Croeso mawr i Rowena Jones sydd wedi symud i fyw i Frynrefail, ac i Darren, Michael a Debrah Cain sydd wedi ymgartrefu yn Nôl Afon.

Y tymor hwn bydd Miss Louisa Morgan o Lanrug, sy'n fyfyrwraig yng Ngholeg Pencraig, yn treulio bob dydd Gwener yn nosbarth y babanod. Gobeithio y bydd hithau yn hapus iawn yn ein cwmni.

Tynnwyd rhifau Clwb yr Ysgol am fis Rhagfyr. Y ddwy lwcus y tro hwn oedd Mrs A. Williams, Ystrad, Llanrug, a Mrs G. Roberts, Bod Gwynedd, Cwm-y-glo. Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r Clwb am £1 y mis.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon (Waunfawr 799)

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad i Silla, Brinley a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli eu tad, William Arthur Pritchard, gynt o Glasfryn, a fu farw ar Ionawr 8fed.

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: C'fon 672790


Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."

am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

'Un funud fach . . .'

AMSER HIR

Blwyddyn newydd dda i chi. Wedi dweud hynny rwy'n sylweddoli bod mis cynta'r flwyddyn yn prysur fynd o'n gafael. Mae amser yn gwibio heibio, a minnau'n dychryn weithiau wrth edrych yn ôl. Oes yna bum mlynedd ers i mi ddod 'nol i'r ardal yn weinidog; a 7 a 7 a 9 mlynedd ers geni'r hogiau; a bron i 12 mlynedd ers i mi briodi; a dros 20 mlynedd ers i mi adael yr ysgol; a 35 mlynedd ers i mi afael yn dynn yn 'railings' Plas Coch a phrotestio'n ffyrnig yn erbyn mynd i'r ysgol yn y lle cyntaf?

Rydach chitha mae'n siŵr wedi synnu wrth sylwi cymaint o amser sydd wedi pasio ers i ryw bethau arbennig ddigwydd. Ydach chi'n rhyfeddu bod yna ddeg, ac ugain, a hanner can mlynedd wedi pasio ers rhyw ddigwyddiad neu'i gilydd?

A dyna 1994 wedi cyrraedd. Aeth 90 mlynedd heibio ers i'r Diwygiad ledaenu trwy Gymru yn 1904. Ydach chi'n cofio'r Diwygiad? Go brin. Cof plentyn fyddai gan yr hynaf ohonom o ddigwyddiadau mawr y cyfnod hwnnw. Yn naturiol, prin iawn ydi'r bobol sy'n cofio cael profiad personol o Ras Duw ym merw'r Diwygiad. Mae llawer yn dal i gofio pobol y Diwygiad; pobol a dröwyd at Grist ac a dystiai wedyn i'w gariad achubol tuag atyn nhw.

Mae 90 o flynyddoedd yn amser hir. Mae'n amser hir iawn i genedl fod heb wybod am waith grymus a grasol Duw yn argyhoeddi ac yn achub eneidiau. Mae Duw wedi bod ar waith yng Nghymru yn ystod y 90 mlynedd hynny wrth gwrs. Bu'n dda wrthym; a daeth miloedd yn sicr i wybod am y gras a'r cariad sydd gan y Gwaredwr tuag atyn nhw. Ond mae'n bryd i'r fendith ddisgyn ar genedl gyfan. Mae'n bryd i Dduw gael ei barchu a'i garu; mae'n bryd i filoedd ddod i wybod am gariad Iesu Grist tuag atynt; mae'n bryd i Gymru brofi grym yr Ysbryd Glân o'r newydd.

Feiddiwn ni, fentrwn ni, fynnwn ni ddweud wrth Dduw eleni bod 90 o flynyddoedd yn ormod i Gymru fod heb brofiad o ddiwygiad? Yn ormod o amser, am ei bod yn bryd iddo Ef gael ei fawrygu yn ein plith.

JOHN PRITCHARD

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Plaid Cymru: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yn y Sefydliad Coffa ar nos Fercher, Ionawr 12. Dangosodd Evan Parry ffilm am ei wykiau i Batagonia ynghyd â sylwadau am ei argraffiadau o'r wlad, a'r cyfan yn arbennig o ddiddorol. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Phyllis Ellis. Rhoddwyd y te gan Llinos Davies, y raffl gan Olwen Llywelyn a'r enillydd oedd Clive James, Caeathro. Enillwyd y Clwb Cant am fis Ionawr oedd: 1, Dafydd Arfon Jones, 3 Minffordd; 2, Gwyndaf Hughes, Glasgoed.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, i ddathlu Gŵyl Ddewi ar nos Wener, Chwefror 25, am 7 o'r gloch. Bydd bwyd based a Thwmpath Dawns gyda'r grŵp Aderyn Prin ac Elfed Roberts yn galw. Mae tocynnau i'w cael gan Phyllis Ellis, Meinwen Lloyd, Nan Humphreys, Vera Williams, Meryl Green, Helen Parry neu Olwen Llywelyn. Gobeithiwn weld aelodau o ganghennau eraill y fro yn ymuno â ni.

Llongyfarchiadau i Keith ac Elaine Jones, 39 Stad Glanffynnon, ar enedigaeth mab, Gareth Iwan, yn ystod mis Rhagfyr — wŷr cyntaf i Jim a Margaret Jones, Dwyros, Llanrug.

Llongyfarchiadau i Michael a Susan Darwood, Stad Cefn Elan, ar enedigaeth merch fach yn ddiweddar — wyres gyntaf Eurwen a Peter Darwood, Stad Glanffynnon.

Merched y Wawr: Cychwynwyd gweithgareddau 1994 gyda noson o Gymorth Cyntaf yng ngofal y Paramedig Mr Dafydd Jones Morris o Fangor. Gwibiodd dwyauwr heibio mor sydyn wrth i bawb edmygu a rhyfeddu at y gwasanaeth clodwiw a gynigir i'r cyhoedd gan ddynion yr ambiwlans. Dadlennodd inni sut maent yn ymdopi â sefyllfaoedd anodd ac erchyll iawn ar adegau. Cyn cyrraedd ysbyty bydd achub bywyd yn dibynnu ar eu medrusrwydd hwy. 'Don't Panic!' ys dywed Wali, oedd y cyngor pennaf. Dylid siarad yn hamddenol â'r claf, ymddangos yn hyderus gan dawelu'r ofnau, cysuro a sylwi yn fanwl am arwyddion.

Dangoswyd sut i roi cusan bywyd gydag eglurdeb o faint o aer i'w chwythu ar gyfer plentyn ac oedolyn a sawl gwaith y dylid pwmpio'r frest.

Yn reddfod, fel mamau ac athrawon, holwyd ef am sut i drin llosgiadau, asthma a ffitiau a chafwyd atebion clir a phendant. Barn pawb oedd y dylid cael cyfarfod fel hwn eto a hynny'n fuan.

Am noson hynod o addysgol fe ddiolchwyd i Mr Morris gan Ann Ifans, ac fel 'Dafydd Ambiwylans' yr adwaenai hi ef ynghyd â holl aelodau Côr y Penrhyn — yn wir ef yw cysurwr a meddyg y Côr pan ânt ar eu teithiau tramor. Diolchwyd yn ddiffuant am wasanaeth amhrisiadwy y dynion ambiwlans i gyd.

Diolchodd Myfanwy Parri i Olwen, Bethanne ac Avril am wneud y baned.

Croesawyd Meirwen Lloyd Jones ac Ann Gibbins yn ôl wedi gwaeldd. Anfonir cofion a dymuniadau da am adferiad buan i Mrs Nansi Lovatt, Mrs Jennie Williams a da deall fod Mr Williams, gŵr Mrs Kitty Williams, yn gwella.

Llongyfarchwyd Margaret a Jim Jones ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

'Lle'r Ferch Mewn Llenyddiaeth' gyda Rhianwen Huws Roberts fydd ar nos Fawrth, Chwefror 8fed. Bydd croeso cynnes i aelodau newydd.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Jenny Parry, Morannedd, 1 Hermon Terrace, Llanrug, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y blodau, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddydd ei phen-blwydd yn 80 oed ar Ragfyr y 4ydd. Llongyfarchiadau i chi Mrs Parry.

Dymuna Jaqueline Pugh, 19 Glan Moelyn, ddiolch am yr holl gardiau, anrhegion, blodau a dymuniadau da a dderbyniodd pan fu yn wael iawn yn yr ysbyty yn ddiweddar. Braff yw gweld Jaqueline adref ac wedi gwella erbyn hyn.

Dymuna Mrs A. Williams, Ystrad, Ffordd yr Orsaf, ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb a ddangosodd gymaint o garedigrwydd tuag ati tra bu yn Ysbyty Gwynedd cyn y Nadolig ac wedi iddi ddychwelyd adref.

Dymuna Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'r teulu, cymdogion a'i ffrindiau i gyd am eu caredigrwydd tuag at Len dros dymor y Nadolig. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs Enid Orritt, 10 Hafan Elan, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd yng Nghartref

Nyrsio Penisarwaun dros Wyl y Nadolig.

Gohebydd diolchgar: Oherwydd pwysau gwaith a chyfrifoldebau eraill rhaid fydd imi roi heibio fod yn y swydd o Ohebydd yr Eco yn Llanrug. Dymunaf ddiolch i bobl y fro am eu cefnogaeth a'u cyd-ddealltwriaeth tra bŵm yn gwneud y gwaith am y pum mlynedd diwethaf, a dymunaf yn dda i'm olynydd. Diolch yn fawr — Dyfi Jones.

Yr Ysgol Gynradd: Wythnos gyntaf mis Ionawr aeth rhai o blant blwyddyn 5 a 6 ar gwrs maes i Wersyll Glanllyn. Thema'r gwaith oedd 'mwyngloddio' a buont ar ymweliadau â Llechwedd a chwarel Gwynfynydd yn Nolgellau. Braff oedd cael rhannu'r profiadau gyda dwy ysgol arall, sef Ysgol y Gelli ac Ysgol Rhostryfan.

Diwedd tymor diwethaf cwblhaodd plant blwyddyn 6 gwrs tystysgrif beicio, o dan ofal Dafydd Edwards. Mae pob un yn falch iawn o'i dystysgrif ac yn hyderus i feicio ar y ffordd fawr sy'n bwysig iawn. **Yr Urdd:** Aeth tri tîm o'r ysgol draw i gystadlaethau pêl-droed 5-pob-ochr a phêl-rwyd ym Mangor. Gwnaeth y tîmau eu gorau glas ond colli wnaeth y tri tîm yn y rowndiau cynderfynol. Da iawn chi.

Nos Lun, Ionawr 17, daeth Carys draw i roi ffilmiau o Glanllyn a Llangrannog i'r adran.

Enillwyd clwb cant am fi Ionawr — 1, Sulwen Roberts, Rhosgadfan; 2, Margaret Williams, Bryn, Cwm-y-glo; 3, Iolo Glyn, Glyn Awel; 4, G. Jones, 4 Arfon Terrace; 5, John Owen, Hafod y Rhos

Fel y nodir yn y newyddion mae Dyfi Jones, gohebydd Llanrug ers pum mlynedd, yn rhoi heibio'r gwaith. Hoffem ddiolch yn ddiffuant iddi am ysgwyddo'r cyfrifoldeb a dymuno'n dda iddi i'r dyfodol — Golygyddion.

Os oes rhywun yn barod i helpu'r Eco a chyflawni'r swydd yma, cysylltwch â'r golygyddion neu unrhyw un o'r swyddogion cyn gynted ag sy'n gyfleus.



THE
SEIONT
MANOR
HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



HAMDEN

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

ERIC JONES

PENISARWAUN

Ffôn: 872421

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

★ Prisiau rhesymol
★ Spreio tu mewn a thu allan
★ Estimates am ddim

O Siambr Selwyn

Ydy, mae twymyn y gwyliau ar ein gwarthaf unwaith eto. Hysbysebion i'n temtio yn llenwi'r papurau dyddiol, ac yn sglicinio'n llawn cynhesrwydd heulog ar ein setiau teledu. Dyma ddyddiau'r bargeinion. Ond byddwch yn ofalus. Darllenwch y print mân.

* * * *

Cwestiwn a ofynnir i mi yn aml ydy, 'I ble rydych chi'n mynd nesa' ar eich gwyliau?'

Mae o'n hen ddywediad cyfarwydd yntyd, sef bod *Duw wedi cymryd chwe niwrnod i greu yr hen fyd 'ma, ac ar y seithfed fe benderfynodd o greu Rio de Janeiro*. Ia, y man delfrydol hwnnw yn Ne America, lle gwelodd y Congrinerio o Ryd-ddu y ferch arbennig honno ar y cei, a lle mae Ronnie Biggs yn dathlu deng mlynedd ar hugain o ryddid ar ôl y lladradd trên. Ia, Rio — dinas y carnifal.

Na fûm i rioed yno. Dydw i rioed wedi hwylio dros Gefnfor yr Iwerydd chwaith, er i mi hedfan drosto un ar bymtheg o weithiau.

A dyna ateb y cwestiwn — 'I ble nesa?'. Daeth y cyfle annisgwyl i mi gael cyflawni y ddau ddymuniad ar yr un daith megis, sef ymweld â Rio, a hwylio yn ôl dros donnau'r Iwerydd. Ydw, rydw i am fentro bod yn forwr, ond nid ar Fflat Huw Puw chwaith ond ar fwrdd y 'Costa Marina' — llong bleser foethus.

Os byw ac iach mi ga i dreulio gŵyl Ddewi eleni yn Rio, a hwylio oddi yno i fyny arfordir Brazil gan alw mewn porthladdoedd fel Salvador, Recife a Fortaleza, cyn croesi'r Iwerydd i Affrica a glanio yn Dakar, prifddinas Senegal.

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymweld â gwlad Senegal, oherwydd pan oeddwn i ar ymweliad â'r Gambia tua blwyddyn yn ôl ni chaniatawyd i mi ymweld â Senegal oherwydd rhyw anghydfod gwleidyddol a oedd rhwng y ddwy wlad ar y pryd. Os astudiwch chi'r map fe welwch fod gwlad Senegal fel pedol ceffyl yn amgylchynu gwlad fechan y Gambia.

O Dkar i Tenerife a threulio ychydig amser yno cyn hwylio am Casablanca. Rai blynyddoedd yn ôl pan ar ymweliad â Morroco mi ges i'r cyfle i dreulio diwrnod heulog yn Casablanca. Dinas fodern o adeiladau gwynion — un o ddinasoedd y Trydydd Byd, ond eto,

welais i yr un awgrym o graffiti yn unman yno. Lle dipyn gwahanol yw Marrakesh (dinas o adeiladau cochion) lle ccs i'r profiad bythgofiadwy o ymwau drwy'r miloedd ar y sgwâr gan wyllo campau yr acrobats a'r llyncwyr tân, a gweld y brodorion rhyfygus yn ymfalchïo mewn gwisgo coleri o nadroedd gwenwynig wedi eu plethu o amgylch eu gyddfau. Ond, fydd na ddim cyfle i ymweld â Marrakesh y tro hwn, na Rabat a Fez — hen ddinasoedd Imperialaidd Morroco gyda'r enwau rhamantau.

Na, llongwr 'dwi am fod y tro hwn, a hwylio o Casablanca drwy gulfor Gibraltar. Profiad newydd fydd cael golwg ar 'y graig uffernol hon' (chwedl Twm Bethel) o'r môr, a chael hwylio heibio iddi heb fwydo'r epas chweinllyd sy'n hongian ar y creigiau.

Yn ôl y teithlyfr — porthladd Barcelona yn Sbaen fydd y stop nesa — a dim ond un diwrnod fydd gennym i gael cip ar y ddinas Olympaidd cyn hwylio am Genoa, a hedfan yn ôl i Gatwick.

O, ydw, rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at gael croesi'r Iwerydd mewn llong. Bu hyn yn ddymuniad gen i rioed.

* * * *

Siawns na fydd gen i ddigon o halen yn fy ngwaed ar ôl y fordaith hon i fentro ar un fach arall yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Cychwyn y tro hwn o Bost Llanrug a mynd i ran o Sbaen na fûm i rioed yno, sef Gwlad y Basg. Hefyd mi gai gyfle ar y trip hwn i ymweld am y tro cynta rioed â'r brifddinas — Madrid.

Rwy'n edrych ymlaen at y trip hwn a siawns gen i na fydd croesi Bae Biscay yn ddim i 'longwr profiadol' a groesodd Gefnfor Iwerydd ychydig fisoedd ynghynt.

Mae dewis da o wyliau gan y cwmni lleol o Lanrug — gwyliau ym Mhrydain ac ar y cyfandir. Cewch eich cludo oddi ar stepan eich drws bron mewn bysiau modern, aros mewn gwestai moethus, ac fe gewch y bonws ychwanegol o gael cwmniaeth Cymry ar eich gwyliau.

Hwn fydd y tro cynta i mi fentro dros y dŵr hefo Arvonnia (o ble daeth y 'v' tybed? Beth am Arfonnia?). Ond mae gen i atgofion melyn am wyliau mewn llefydd fel Dunoon ac Ayr yn yr Alban, St Ives, Bournemouth ac Ynys Wyth.

* * * *

Digon o waith y byddai'n mentro siarad ag unrhyw 'ferch ar y cei yn Rio' ond os do i ar draws Ronnie Biggs yn un o'r clybiau ar draeth Copocabana, wel mi ai ato fo am sgwrs ac mi bryna i beint iddo fo. Pwy a ŵyr efallai y bydd o'n gwybod rhywbeth o hanes Lord Lucan. Hwyl i chi ar drefnu eich gwyliau.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Nadolig Gwyn: Er ein bod bellach bron a dod i ddiwedd mis Ionawr, mae'n rhaid cofnodi i ni gael Nadolig gwyn eleni. Yn ôl yr hyn a ddeallir dyma oedd y tro cyntaf i ni gael eira ar ddydd Nadolig ers 1954. Ar nodyn personol bu i mi gerdded i fyny Lôn Garet i'r chwarel ar brynawn dydd Nadolig a mwynhau yr olygfa odidog gyda'r eira yn fantell gwyn dros y fro. Gyda'r adroddiad yma rwyf yn gobeithio bod yr ychydig luniau a dynnais yn gwneud cyfiawnder â'r olygfa y prynawn hwnnw.

Llongyfarchiadau i Mrs Heulwen Jones, 9 Bro Elidir, ar fod yn nain. Bu i'w merch, Donna, roi genedigaeth i ferch fach, Anthea Lynn Owen, ar y 27ain o Ragfyr. Llongyfarchiadau mawr i Donna ac Anthony, y fam a'r tad hapus.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad i'r teuluoedd canlynol yn eu profedigaeth:

— Mrs Derek Williams, Bron Eilian, o golli mam annwyl cyn y Nadolig;
— Mr Alf Dearn, Fron Deg, o golli

mam annwyl yn ystod y Nadolig;
— teulu y ddiweddar Mrs Mair Jones, gynt o 9 Bro Elidir, a fu farw ar Rhagfyr 27ain. Bu'r angladd ar y 31ain o Ragfyr ac fe'i claddwyd ym mynwent Macpela, Deiniolen.

Cymdeithas Undebol Dinorwig: Cafwyd cychwyn hynod o fendithiol i raglen y Gymdeithas am eleni pan gynhaliwyd Gwasanaeth Blwyddyn Newydd yn y Ganolfan ar nos lau, 6ed o Ionawr. Roedd y trefniadau yng ngofal Mrs Alice Griffiths a bu iddi lwyddo i lunio gwasanaeth ac iddo naws arbennig iawn. Diolch iddi am ei gwaith ac i bawb a gymerodd ran mor fendigedig yn y gwasanaeth. Erbyn i chwi ddarllen y nodiadau hyn bydd Pedwarawd Liz Perkins wedi ymweld â'r Gymdeithas. Ar gyfer mis Chwefror bydd Mr Huw Jones, Llanwnda, yn dod i siarad â ni ar nos lau, Chwefror 3ydd; ac yna Cwmni Drama Llanberis ar nos lau, Chwefror 17eg. Dwy noson i edrych ymlaen atynt. Cofiwch ddod i gefnogi'r Gymdeithas.



Aelodau Clwb Hwyl Hwyr gyda Siôn Corn yn eu parti Nadolig.

Clwb Hwyl Hwyr: Mae gweithgareddau'r Clwb yn mynd o nerth i nerth, a'r plant yn ymddangos fel pe baent yn cael budd mawr o gyfarfod â'u gilydd yn wythnosol yn y Ganolfan. Cafwyd parti Nadolig hynod o lwyddiannus ac mae'r diolch i bawb am sicrhau parti gwerth chweil i'r plant. Braf oedd cael cwmni pobl hyn o'r pentref yn ymuno yn hwyl y Nadolig gyda'r plant. A oes modd gwneud hyn yn ddigwyddiad blynyddol? Wrth gwrs fe ddylem ddiolch yn fawr i Siôn Corn am alw i weld y plant ac am sicrhau eleni eto bod plant Dinorwig wedi cael y llu o anrhegion a ofynnwyd amdanynt. Yr un yw y diolchiadau i Marian, Hannah ac Olwen am drefnu'r parti. Mae'r Clwb yn gobeithio cynnal Noson Goffi ar nos Fercher, Chwefror 9fed, yn y Ganolfan am 6.30 o'r gloch. Gelwir y noson yn 'Dewch am Hwyl' pryd y bydd cyfle i gael paned, ambell i eitem gan y plant a chael tipyn o hwyl ymysg ein gilydd fel

pentrefwyr. Felly, dewch i gefnogi. Bydd yr elw ariannol a wneir yn mynd tuag at brynu llyfrau, ac ati, i'r Clwb.

Ymweliad yr Esgob: Bydd y Gwir Barchedig Ddr Barry Cennydd Morgan, Esgob Bangor, yn ymweld â phlwyfi Penisarwaun a Llandinorwig ar ddydd Llun, 14 Chwefror. Bydd yr Esgob yn treulio y diwrnod cyfan yn y plwyfi ac y mae'n awyddus i gyfarfod â phobl wrth eu gwaith, disgyblion ac athrawon yr ysgolion a'r cleifion. Bydd gwasanaeth byr yn Eglwys

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio
4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribio a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

GERDDI GLASCOED

(Ger Capel Glascoed)

PENISARWAUN

I'ch gardd
fod ar ei gorau
galwch heibio
neu ffoniwch

870453

(Dinorwig — parhad)

Crist, Llandinorwig am 11.30 y bore hwnnw ac fe'i dilynir gyda chinio o gawl poeth a bwffe. Yn y prynhawn am 4.30 bydd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun. Bydd te a lluniaeth ysgafn yn Neuadd yr Eglwys ar derfyn y gwasanaeth hwn. Gwahoddir pawb sydd yn dymuno cyfarfod a chael sgwrs â'r Esgob i'r naill gyfarfod neu'r llall yn ystod yr ymweliad. Am fanylion pellach cysyllter â'r Parchg Tegid Roberts. **Eglwys St. Mair:** Hoffai'r swyddogion ddiolch i bawb am ymateb i'w cais am dderbyn eu cyfraniadau ariannol am y llynedd.



Dinorwig o dan blanced o eira.

Addunedau: Os nad ydych wedi meddwl am adduned eleni caniatewch i mi awgrymu un. Dwi'n credu y byddai pob gohebydd pentref yn cytun â mi yn hyn o beth — addunedwch i gynorthwyo eich gohebydd drwy anfon pytiaw newyddion iddo pob hyn a hyn. Os nad yw eich newyddion chwi yn yr Eco yna eich bai chwi yn unig ydyw. Ni all y gohebydd ond adrodd am yr hyn y mae ef ei hun yn ei glywed a'i weld. Edrychaf ymlaen i weld pwy fydd yn cadw adduned o'r fath yn

ystod y flwyddyn.

Diolchiadau: Dymuna Robert, Gwenfron a Gwyn ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar ôl colli eu tad, y diweddar Emmanuel Jones, Cae Canol, Fachwen gynt. Diolchir yn arbennig i Norman Closs Parry am y deyrnged a ysgrifennodd iddo. Diolch hefyd i feddygon a staff wardiau Ogwen a Gogarth, Ysbyty Gwynedd, am y gofal a gafodd yn ystod y misoedd olaf.

GWASANAETHAU EGLWYS ST. MAIR, DINORWIG

Bydd y newidiadau canlynol yn ngwasanaethau Eglwys St. Mair yn weithredol o ddydd Sul, **6 Chwefror 1994 ymlaen:**

Sul cyntaf: Boreol Weddi am 11.00 a.m.

Ail Sul: Cymun Bendigaid am 9.30 a.m.

Trydydd Sul: Boreol Weddi am 11.00 a.m.

Pedwerydd Sul: Cymun Bendigaid am 11.00 a.m.

Pumed Sul: Gosber ar yn ail hefo Eglwys Crist neu drefniadau eraill. Cyhoeddir unrhyw drefniadau arbennig yn y Wasg.

GWASANAETHAU EGLWYS SANTES HELEN, PENISARWAUN

Bydd y newidiadau canlynol yng ngwasanaethau Eglwys Santes Helen yn weithredol o ddydd Sul, **6 Chwefror 1994 ymlaen:**

Sul cyntaf: Cymun Bendigaid am 10.30 a.m.

Ail Sul: Boreol Weddi am 10.30 a.m.

Trydydd Sul: Cymun Bendigaid am 10.30 a.m.

Pedwerydd Sul: Boreol Weddi am 10.30 a.m.

Pumed Sul: Boreol Weddi neu Gymun Bendigaid am 10.30 a.m.

Cynhelir gwasanaeth y Gosber am 4.30 p.m. fel arbrawf drwy fisoedd yr haf gan ddechrau ar ôl yr Ŵyl Bregethu Flynyddol ym mis Mai.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Ysgol Gynradd Penisarwaun:

Uchafbwynt tymor y Nadolig oedd dau berfformiad o'n sioe, sef 'Chwilio am Seren' gyda Erin Eifion ac Alaw Jones, dwy ferch o flwyddyn 5, yn cymryd y brif rôl. Yn fyr, mae'r ddwy, sef Alwen ac Eyllt yn y sioe, yn chwilio am Seren y Nadolig. Yn ystod eu taith mae'r ddwy yn darganfod sawl seren ac yn cael sawl cam-gwag. Maent yn cyfarfod nifer o enwogion hefyd gan gynnwys Wali, Bryn Fôn a Wayne Phillips. Yn anffodus nid y rhain yw Seren y Nadolig, na'r seren fôr ar y traeth ac un byr iawn ei dymor yw dreifar bws y Seren Arian. Ond, o'r diwedd, a chyda cymorth gwerthfawr Wali, sef Eurig Roberts, mae'r ddwy yn dod o hyd i Breseb y Baban, ac uwch ei ben 'Seren y Nadolig'. Ar ôl cyflwyno eu anrhegion o aur, thus a myrr i'r Baban, mae Alwen, Eyllt a Wali yn camu yn ôl i wneud lle i blant adran y babanod i gael cyflwyno eu anrhegion hwythau.

Er yr holl waith caled roedd pawb wedi mwynhau y paratoi a'r cyflwyno yn fawr iawn. O'r cyfarchion, diolchiadau, galwadau ffôn, llythyrau a chardiau a dderbyniwyd wedyn, mae'n amlwg fod y gynulleidfa wedi mwynhau eu hunain hefyd.

Gwnaed fideo o'r sioe (heb gynulleidfa yn bresennol) ac fe gafodd yr unigolion a'r grwpiau o'r gwahanol olygfeydd dynnu eu lluniau o flaen y cefndir ardderchog a wnaeth Mr Islwyn Williams ar ein cyfer. Mae'r lluniau i'w gweld yng nghyntedd yr Ysgol ac mae'n bosib archebu copïau ohonynt am 50c yr un. Gellir gwneud copïau o'r fideo hefyd ond i chwi anfon tâp gwag a £3 i'r Ysgol. Mae'r copi gwreiddiol, a ffilmiwyd gan Mr David Phillips, yn cael ei drysori yn yr Ysgol.

Yn ogystal â raffl, a dynnwyd ar ddiwedd y perfformiad olaf, gwnaed casgliad tuag at Apêl Haematoleg y pentref a chasglwyd cyfanswm o £128 ac fe'i trosglwyddwyd i Miss Phyllis Ellis i'w ychwanegu at y gronfa leol.

Eisoes mae cryn edrych ymlaen i'r flwyddyn newydd ac mae paratodau ar y gweill ar gyfer dathlu Gŵyl Ddewi. Ar nos Fawrth, Mawrth 1af, cynhelir Ffair Lyfrau Cymraeg a Saesneg yn yr Ysgol am 6.30 o'r gloch. Yn ystod y noson fe gyflwynir eitem gerddorol gan y plant ac fe fydd y Cyfeillion yn paratoi paned a bara brith. Dewch yn llu, bydd croeso cynnes i bawb.

Cyfeillion yr Ysgol: Gwnaed elw o £135.60 drwy catalog Webb Ivory. Diolchir i Beryl Jones am ei gwaith caled ac i bawb a brynodd o'r catalog.

Wedi ymdrech dda gwerthwyd nifer sylweddol o gardiau Nadolig a dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb fu'n gwerthu a phrynu.

Cofiwch am y **Ffair Lyfrau** ar **Ddydd Gŵyl Ddewi** am 6.30 p.m.

Yr Urdd — Adran Bentrref: Dechreuwyd gweithgareddau'r tymor ar nos Fawrth, Ionawr 11eg gyda gêm o Bingo. Diolchir i Ynyr am fod yn alwr.

'Fy Hoff Beth' fydd dan sylw ar Ionawr 18fed.

Ionawr 25ain: 'Noson Santes

Dwynwen' gydag Ann Ifans.

Chwefror 1af: 'Carioci' yng ngofal Beryl Jones.

Chwefror 8: Cyfle i fwynhau arddangosfa o fodolau peiriannau stêm.

Chwefror 18fed — Gwyliau hanner tymor felly **DIM CYFARFOD.**

Llongyfarchiadau: Pob bendith i Avril a Geraint Williams, Careb, ar ddathliad eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Pob dymuniad da i Andrea Paterson ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed ddiwedd Rhagfyr.

Profedigaeth: Cydymdeimlir yn ddwys iawn ag Elen a Haydn Lewis, Penpwll Coch, a'r teulu oll, yn eu profedigaeth lem o golli mam a nain annwyl.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Griffith, Cae Bach, estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf i'r teulu oll.

Gwellhad: Anfonir dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i bawb sy'n sâl yn y pentref.

Pwyllgor Neuadd: Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd yr oll weithgareddau yn ystod 1993. Gobeithir cael yr un ymateb clodwiw eto yn 1994. Diolchir i aelodau ffyddlon y Clwb Cant ac fe'ch atgoffir yn garedig yr adnewyddir yr aelodaeth ar ddechrau blwyddyn fel hyn. Pris aelodaeth yw £6 y flwyddyn neu 50c y mis trwy law aelodau'r pwyllgor, neu'r Trysorydd, Mr Leslie Larsen, Llygad yr Haul.

Dymuna Phyllis, Delyth, Elizabeth ac Ann Ifans ddiolch i Susan, Rhian ac Elgan am eu helpu gyda'r canu carolau o amgylch y pentref. Diolchir i bawb a gyfrannodd ac i Bet a Ron am y croeso ar eu haelwyd ac i Pat a Leslie am gynhesrwydd eu haelwyd hwythau.

Trefnir cyngerdd gyda Hogia'r Wyddfa yn gynnar yn y gwanwyn. **Ymweliad yr Esgob:** Bydd y Gwir Barchedig Ddr Barry Cennydd Morgan, Esgob Bangor, yn ymweld â phlwyfi Penisarwaun a Llandinorwig ar ddydd Llun, 14 Chwefror. Bydd yr Esgob yn treulio y diwrnod cyfan yn y plwyfi ac y mae'n awyddus i gyfarfod â phobl wrth eu gwaith, disgyblion ac athrawon yr ysgolion a'r cleifion. Bydd gwasanaeth byr yn Eglwys Crist, Llandinorwig am 11.30 y bore hwnnw ac fe'i dilynir gyda chinio o gawl poeth a bwffe. Yn y prynhawn am 4.30 bydd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun. Bydd te a lluniaeth ysgafn yn Neuadd yr Eglwys ar derfyn y gwasanaeth hwn. Gwahoddir pawb sydd yn dymuno cyfarfod a chael sgwrs â'r Esgob i'r naill gyfarfod neu'r llall yn ystod yr ymweliad. Am fanylion pellach cysyllter â'r Parchg Tegid Roberts.

DALIER SYLW!

Oes rhywun o'n darllenwyr yn Llanrug, Deiniolen neu'r Waunfawr yn barod i roi rhywfaint o gymorth i'r Eco? Os oes, trowch i Newyddion y Pentrefi hynny am fanylion pellach.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Cronfa Canolfan Waunfawr: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr — £40: Mr Iolo Huws-Roberts, Bodrida; £25: Mr Norman Williams, Llidiart Wen; £10: Mr Dylan Jones, Eryri Wen. Hefyd talwyd dwy wobwr ychwanegol o £10 yr un i Mrs Saunders, Ty'n Weirglodd ac Eurig Wyn, Y Frenni.

Llongyfarchiadau

Dyweddi: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Nan Wyn, Teras Cefn Du, ar ei dyweddiad â Huw o Gwyddelwern.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Raymond a Pat Parry, Ffridd Felan, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch fach, Emma Louise, i'w mab Michael a'i wraig Liz, chwaer fach i Mathew.

Daeth Mr a Mrs Bellamy, Cae'r Waun, Groeslon, yn daid a nain unaith eto — ganwyd mab bychan, Charlie, i'w merch Jane, brawd bach i Samantha a Sarah.

Dathlu pen-blwydd: Yn ystod mis Ionawr dathlodd Joanna Candlish, Maes Gwynedd; Fflŷr Llewelen, Stad Tref Eilian; Sarah Morris, 3 Ael-y-bryn; a Jamie Basterfiel, Ty'n 'Rardd, eu pen-blwydd yn ddeunaw oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i'r bedair ohonoch.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs M. Owen, Bryn Gwylan, a Mr Lloyd, Bryn Awelon. sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Croesawn Mr R. W. Roberts, 9 Bryn Golau; Eleri Jones, Bron Eifion; a Mrs Llinos Dinwoody, Glyn Garth, adref o'r ysbyty, gan ddymuno adferiad iechyd iddynt.

Anfonwn ein cofion hefyd i Mrs Helena Edwards, 8 Stad Bod Hyfryd, a syrthiodd yn ddiweddar a thorri ei

choes; ac i Mr Haydn Jones yntau hefyd wedi syrthio a brifo.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Williams, Monfa, Teras Eilian, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Syrpreis! Cafodd Mrs Mary Jones, Stad Tref Eilian syrpreis gwerth ei chael dros wyliau'r Nadolig. Heb ymwybod iddi fe ddaeth ei brawd Edwin adref o Awstralia ar ymweliad.

Yr Urdd: Mae tymor newydd wedi aildechrau hefo rhai o'r plant yn brys yn gwneud gwaith llaw gyda Ann Elfryn ar gyfer yr Eisteddfod, tra roedd y gweddill yn mwynhau gwneud ffrwythau marzipan gyda Jill Brown ac Anti Nan yn helpu — diolch yn fawr i Anti Ann, Jill Brown ac Anti Nan.

Os oes yna fam yn fodlon helpu ar noson yr Urdd, neu a diddordeb i fod yn aelod o'r pwyllgor, cysylltwch â Heulwen Jones gan ein bod angen aelodau newydd ar y pwyllgor.

Mae'r amser wedi dod unwaith eto i ddechrau paratoi ar gyfer yr Eisteddfod ac mae rhai o'r plant wedi dechrau ymarfer yn barod gyda'r gân actol, dawnsio disgo a dawnsio gwerin.

Fe gynhelir yr Eisteddfod 12-15 oed, a'r cystadlaethau cân actol, dawnsio disgo a dawnsio gwerin dan 12 oed, yn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon, ar Chwefror 26ain. Ar Fawrth 5ed yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, fe gynhelir yr Eisteddfod i rai dan 12 oed. Os oes yna rhywun eisiau cystadlu — canu, adrodd, gwaith llaw neu llen, cysylltwch â Joy Glyn cyn gynted ag sydd bosib.

Aeth rhai o fechgyn yr Adran i Fangor yn ddiweddar i gystadlu yng ngemau pêl-droed yr Urdd — da iawn chwi fechgyn — a diolch i Yncl Bryn am eu hyfforddi.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith); 677438 (cartef)

Tynfa Fisol: Enillwyr tynfa fisol y pwyllgor cae chwarae ar gyfer mis Ionawr oedd — £40: C. Evans, Tafarn Bryngwna (65); £25: O. T. Williams, Tyddyn Uchaf (72); £15: C. James, Hafan (71). Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Chwefror:

6 — Mr John Roberts am 2.
12 — Y Gweinidog am 10.
20 — Parchg M. L. Thomas am 2.
27 — Y Gweinidog am 2.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Michelle a Neil Jones, 7 Glanrafon Terrace, ar enedigaeth eu mab bychan, Mathew; brawd i Lyndsey Ann a gor-wyr cyntaf i Mrs Hay, 3 Nant Ffynnon.

Gwellhad: Dymunir gwellhad buan i Alan Pritchard, Llys Awel, sydd yn

Ysbyty Gwynedd. Yr un yw'r dymuniad i Mr Eric Thomson, Tŷ'r Ysgol, a dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty hefyd.

Rehoboth: Cynhelir cyfarfod nesaf Chwiroydd Capel Coch a Rehoboth yn festi'r Capel Coch am 2 o'r gloch, ddydd Iau, Chwefror 3.

Cychwyn Newydd yn y Gymuned Cwrs Cyn-fynediad

- ★ Ydych chi am gynyddu eich hyder, bod yn fwy pendant a gwella eich gobeithion?
- ★ Mae cwrs anffurfiol am ddim, gyda chymhwyster, yn cael ei gynnal yn Llanberis o ddydd Llun, 24 Ionawr.
- ★ Gallai'r cwrs dwyawr yr wythnos hwn olygu mynediad at astudio pellach neu eich helpu i gael swydd.
- ★ Bydd yn gwella eich sgiliau cyfathrebu ac mi fydd yn hwyl. Dowch yno, a ffrind hefo chi os

mynnwch, i Angorfa (T. Rowland Hughes), Llanberis ar ddydd Llun, 9.30 a.m. — 11.30 a.m. neu ffoniwch **Gill Williams, Coleg Gwynedd ar (0248) 370125, estyniad 317** am fwy o fanylion.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwr

Linda Morris

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

1 BRYN FEDWEN, Ffordd yr Orsaf
LLANRUG. Ffôn: 678857

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

CAMERA'R ECO

Mae angen rhywun i ofalu am un o gamerâu yr Eco yn Waunfawr.

Mae'r manylion am y cynllun newydd i'w gweld ar dudalen 2, a dylai unrhyw un sy'n barod i gynorthwyo gysylltu ar fyrder â:

**Gwyndaf Hughes
Llanrug (677263).**

BARRY'S GLASS

- am Ffenestri a Drysau UPVC • Estimates am ddim
- Gwydr a gwydro o bob maint • Ffenestri Gwydr Dwbl
- Gwasanaeth bordio a gwydro 24 awr.



CAMELOT, PENISARWAUN
871144 (Dydd) 871774 (nos)

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Dewis eang o
Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 650291

NADOLIG GWYN



Dinorwig o ben Lôn Garet ar brynhawn Dydd Nadolig.

RHOSYN A RHYCH

Yn dilyn llwyddiant ysgubol 'Deial 999' a 'Tweileit Zon' mae Bara Caws am fentro 'nôl i'r clybiau efo sioe arall gan Twm Miall — 'Rhosyn a Rych'.

Os ydych yn unig ac isel eich hysbryd pryd gwell na chyfnod Sant Ffolant i gychwyn ar ddyfodol

HUD AR DDYFED

Bydd Cwmni Hwyl a Fflag yn cyflwyno 'Hud ar Ddyfed', drama lwyfan gyntaf Iwan Llwyd, mewn canolfannau ledled y wlad wedi'r Pasg eleni.

Wedi ei lleoli yng nghefn gwlad amaethyddol Dyfed, dyma ddrama gyfoes a stori gref am deulu sydd yn byw dan gysgod. Yn tynnu ar hud y mabinogi am ei hysbrydoliaeth ceir yma elfennau o stori ddirgel ond gydag isleisiau arallfydol, chwedlonol.

Magwyd Iwan Llwyd ym Mangor ac mae'n ffigwr amlwg ym myd barddoniaeth a cherddoriaeth y cylch a thu hwnt. Bu iddo fentro i fyd y ddrama deledu yn ddiweddar ond dyma ei ddrama lwyfan gyntaf.

Perfformiwyd 'Hud ar Ddyfed' eisoes yng Ngŵyl 'Codi'r Hwyl 6' y llynedd ac fe'i hystynwyd a'i datblygu ers hynny. Bydd cyfle 'w gweld ar ei newydd wedd yn Theatr Gwynedd rhwng Ebrill 13 a'r 16. I archebu tocynnau, cysyllter â'r Theatr ar Bangor 351708.

newydd sbon a bachu cymar oes? Ma' 'na 'frân i bob brân', felly beth amdani? Dewch i dreulio orig diddan yng nghwmni Catherine Aran, Bryn Fôn, Maldwyn John, Eilir Jones, ac ambell i gymeriad diddorol arall. Cyfarwyddwr y Sioe yw Merfyn Jones, a bydd cyfle i'w gweld yn y canolfannau isod:

22 Chwefror:
Clwb Cymdeithasol Bangor (0248 601167)
16 Mawrth:
Clwb Rygbi Bethesda (0248 601526)
17 Mawrth:
Clwb Pêl-droed Pen-y-groes (0286 881294)
24 Mawrth:
Clwb Rygbi Caernarfon (0286 679501)



Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN

6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

Digwyddiad o bwys yn
eich pentref?

Dathliad arbennig?

Cymdeithas yn cyfarfod?
Does dim rheswm bellach
i beidio cael llun yn yr Eco.
Gweler tudalen 2.

OSMOND SHAW DEINIOLLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG

Caernarfon 673513



Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr
650552

CARPEDI GLÂN

Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf,
sydd ar gael. Am
fanylion cysylltwch â

TEGID
PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 650291
hefyd ail-osod carpedi



Lake View
Hotel
LLANBERIS
870422

Prydau Arbennig
ar gyfer partïon

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.

CABS LLANRUG



C'fon 675951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

DRYCHIO LAETH gan y Gwalch

Geneth ddel oedd Bet fy nith. Gresynais lawer gwaith iddi gael ei gdael yn amddifad ar adeg pwysicaf ei hoes. Unig ferch fy mrawd oedd hi, a chan fy mod fy hunan yn hen lanc 'diswyn a diserch', beth oedd yn fwy naturiol nag i mi ei chymryd o dan fy ngofal pan adawyd hi yn unig yn ddeuddeg oed.

Setlodd yn hapus ddigon acw a daeth hi ac Elin, sydd wedi bod yn cadw tŷ i mi ers blynyddoedd, yn llawiau o'r cychwyn. Sylweddolais nad oedd yn bosibl i mi roi magwraeth mam a thad i Bet, ond cysuraf fy hun i mi wneud fy ngorau. Gwerthfawrogodd hithaf fy ymdrechion; gwnaeth y gorau o'i hamser yn yr ysgol ac yn y cyfnod yma dangosodd duedd gref tuag at feddygaeth. Cafodd pob cefnogaeth, ac wedi gyrfa lwyddiannus yn y coleg, graddiodd fel meddyg a chael swydd yn un o ysbytai Llundain.

Yn ystod yr amser yma ni ddaeth unrhyw duedd tuag at briodi yn amlwg o gwbl ynddi; yr oedd wedi rhoi ei hun yn gyfan gwbl i'w galwedigaeth. Nid nad oedd yn boblogaidd yn y pentref acw; byddai yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, a gwn yn eithaf da fod aml i lanc yn awyddus o'i ffafr, ond cadw ei hun iddi ei hun a wnaeth Bet. Wedi'r cwbl, meddyliais, efallai ei bod yn tynnu ar ôl ei hewythr.

Gohebem yn gyson a thipyn o syndod i mi un diwrnod fu derbyn gair ganddi yn gofyn fy nghaniatâd i ddod a gŵr ifanc, o'r enw Sam, adref ar ei gwyliau i'm gweld. Edrychais ymlaen am y cyfarfyddiad a hoffais y bachgen yn fawr. Yr oedd ef yn feddyg hefyd yn yr un ysbyty a'i gartref yn Sir Gaerwrangon. Sylwais oddi wrth ymddygiad y ddau nad oedd priodas fuan yn amhosibl ac ni chefais fy siomi. Yn fuan yn y flwyddyn newydd daeth Sam bob cam ei hunan i'm gweld ac i ofyn am law Bet. Sylweddolais ei fod yntau am fy nerbyn fel tad iddi a hoffais ef yn fwy am hynny.

Trefnwyd y briodas yn yr haf a gwahoddwyd finau i dreulio cyfnod yng nghartref Sam yn Sir Gaerwrangon a chyfarfod ei rieni.

Yr oeddwn wedi ymddeol ers tro ac felly nid oedd rhwystr i mi dreulio cyfnod yn eu cwmni. Cefais dderbyniad twym a gwelais ogoniant gwlad y ffrwythau ar ei gorau.

Un diwrnod neidiais ar fws am dygodd i berfeddion ardal y perllannau ac i gyffiniau plasy henafol a oedd o bensaerniaeth Elisabethaidd. Gwelais hysbysebion ar ochr y ffordd yn dangos fod yno arwerthiant ar y dydd arbennig hwnnw a phenderfynais ymuno â'r dyrfa a oedd eisoes yn cyrchu tuag at y tŷ. Deallais mai enw'r lle oedd Plas Cammelis.

Rhoddais dro drwy'r ystafelloedd cyn i'r arwerthiant ddechrau. Yr oedd yno ddodrefn gwyllt neilltuol a chofiaf i mi feddwl y buaswn yn hoffi un peth neu ddau pe bawn yn nes adref. Deuthum o'r diwedd i ystafell wely eang ac yno, ar fwrdd, tynnwyd fy sylw at law-ddrych bychan a'i ymylon wedi ei addurno ag arian. Gwelais ei fod yn rhywbeth nas gellid ei brynu mwyach a phenderfynais y mynnwn ei gael yn anrheg priodas i Bet. Er hyrwyddo fy mwriad arhosais yn yr ystafell

honno nes y deuai'r arwerthwr heibio i roi ei chynnwys o dan y morthwyl. Yr oedd hwn eisoes wedi dechrau ar ei waith i lawr y grisiau a phawb wedi heidio yno gan fy ngadael fy hunan yn eistedd wrth y drych.

Toc daeth gwraig, a oedd yn heneiddio tipyn, i mewn ac cisteddodd yn un o'r cadeiriau, ac heb gymryd unrhyw sylw ohonof, tynnodd fflasg o de o'i basged a thywalltodd i gwpan.

'Onid yw yn glôs,' meddai o'r diwedd mewn aced werinol. 'Rwyf yn falch fy mod wedi dod â diferyn i'm canly. Rwyf wedi cychwyn o gartre ers chwech y bore ond yr oeddwn yn benderfynol o beidio â cholli'r arwerthiant.' Tawodd am ennyd a phenderfynais innau ddweud gair.

'A oes gennych ddiwedd mewn prynu rhywbeth?'

'Buaswn yn hoffi cael rhywbeth bach i gofio'r hen amser dedwydd gynt,' meddai gan syllu drwy'r ffenestr. 'Bûm yn forwyn yma welwch chi, gyda'r hen deulu, ac er fod newidiadau wedi bod mae'r dodrefn i gyd yma bron gan mai dyna'r ddefod sydd wedi bod yn berthnasol i Blas Cammelis erioed. Ar ddyfodiad cenhedlaeth newydd yr oedd yn ddealliedig fod y cynnwys yn aros yr un fath ac yn ei le. Felly gwelwch fod yma ddodrefn henafol iawn.'

'Beth yw ystyr yr arwerthiant felly?' gofynnais.

'Dyma ddiwedd Cammelis,' meddai hithau. 'Mae'n awr yn eiddo i'r Wladwriaeth ac i fod yn ysgol i blant amddifad.'

'Gresyn yw hynny,' meddwn. 'Rwy'n siŵr i chi gael amser diddan yma o dro i dro.'

'Do yn wir,' meddai. 'Rwy'n cofio fel y byddem yn gwyllo yn y nos gyda rhai o'r llanciau er ceisio gweld yr ysbryd.'

'O! Mae yma ysbryd felly?'

'Oes, y mae amryw wedi ei gweld, gan mai hen wraig oedd hi yn ymddangos ym mhen y grisiau mawr yn y nos. Dywedir i un o arglwyddi Elisabeth drigo yma flynyddoedd yn ôl ac yr oedd iddo un ferch landeg iawn. Roedd hi, meddent, yn paratoi ei hun ar gyfer ei phriodas yn yr ystafell yma lle'r ydym yn awr pan ddaeth gair iddi hi fod ei phriodfab wedi dianc â merch arall. Bu'r ergyd yma yn fodd iddi dorri ei chalon ac iddi gau ei hun yn ei hystafell a byw fel meudwy am flynyddoedd. Pan ddarfu iddi fentro i olau dydd o'r diwedd yr oedd megis hen wraig. Gwisgai hen ddillad ac fe ddaeth yn destun gwawd y trigolion. Dywedir iddi dreulio y gweddill o'i hoes yn cynllunio sut i ddifa'r ferch a ddygodd ei chariad, ond nid wyf yn meddwl ei bod wedi llwyddo. Bu farw yn ganol oed a chladdwyd hi yn yr Abaty. Ond dywedir y gwelir hi weithiau ar ben y grisiau mawr yn crwydro yn ôl a blaen.'

'Diddorol iawn yn wir,' meddwn innau. 'Ond yn siŵr nid ydych yn coelio pethau fel yna?'

Cyn iddi gael cyfle i ateb daeth yr arwerthwr i'r ystafell a'r dorf wrth ei sodlau a cholllais olwg ar y wraig yn y miri.

Bu cynigion taer am y drych bychan, ond fel y crybwyllais penderfynol oeddwn i'w feddiannu, ac wedi llwyddo, i fwrdd â fi yn ôl gyda'm trysor.

Wrth deithio yn y bws penderfynais gelu'r anrheg nes yr awn yn ôl i Gymru a'i roi ar fwrdd y parlwr ymysg yr anrhegion niferus eraill a dderbyniodd Bet eisoes. Pan gyrhaeddais fy mwthyn rhoddais y drych ymysg y gweddill a thaerai Elin ei fod yn rhagori ar y cwbl.

Nesaodd dydd priodas Bet. Daeth adref acw cryn wythnos ymlaen llaw, ac nid anghofiaf y llawenydd ar ei hwyneb pan welodd y drych bychan am y tro cyntaf. Yr oedd wedi gwirion ag ef.

Fore'r briodas yr oeddem ein dau yn disgwyl y car a oedd i'n cludo i'r eglwys. Yr oedd Bet yn edrych fel tywysoges yn ei gwisg — a minnau yn meddwl mor ffodus y bûm i'w methrin a chael y fraint o'i throsglwyddo i ofal rhywun arall. Roedd y car braidd yn hir yn dod a minnau erbyn hynny yn gynhyrfus. Cerddais drwedd i'r parlwr yn ddarwybod bron a dechreuais edrych trwy'r anrhegion am y canfed tro. Codais y llaw-ddrych gan edrych iddo a'r funud honno gwelais ynddo hen wraig mewn dillad hynafol yn gwenu arnaf yn fileinig. Troais ar fy sawdl yn grwn, ond nid oedd neb o'r tu ôl i mi. Ailedrychais ar y drych ond nid oedd dim o'i le ar hwnnw. Cefais dipyn o ysgytwad, a dychwelais at Bet i'r gegin ffrynt. Sylwodd ar unwaith fy mod yn welw, ac meddai:

'Druan ohonoch f'ewythr, peidiwch â phoeni, bydd popeth yn iawn, mae eich anerchiad gennych wedi ei 'sgrifennu. Bydd popeth yn iawn.'

Ni fu priodas debyg yn Llananwes i mi ei gofio a cychwynnodd y ddau

ieuainc ar eu melrawd gyda dymuniadau da y trigolion. Derbyniais innau air, ymhen y rhawg, yn dweud eu bod wedi setlo yn eu tŷ yn y brifddinas. Ychwanegodd Bet mai ei bwriad oedd dod trosodd yn fuan i mofyn ei anrhegion a phethau eraill.

Cyrhaeddodd acw un prynhawn ac arhosodd y nos. Yn gynnar trannoeth, wedi llwytho'r car yn barod, cychwynnodd ar ei thaith yn ôl. Cofiaf cymaint o fyd oedd ganddi y bore hwnnw gyda'r drych bychan. Rhoddodd ef ar ei ben ei hun mewn cwpwrdd wrth ei hochr, o dan y dashboard, rhag i ddim ddigwydd iddo.

Tua canol y prynhawn, pan oeddem yn hwylio am de, daeth acw frysnes. Roedd Bet wedi ei lladd mewn damwain yn y Canoldir. Roeddwn ar y pryd yn rhy llawn fy nhrallod i gymryd nemawr sylw o'r manylion.

Ymhen amser rhoddwyd ar ddeall i mi fod ei char wedi taro canllaw pont ar lecyn diarffordd yn Sir Gaerwrangon. Pan ddeallodd yr heddlu ei bod yn teithio i Lundain roeddynt wedi synnu ei bod wedi troi oddi ar y ffordd fawr i ganlyn y lôn fechan wledig honno.

Nid oedd tystiolaeth bod unrhyw berson na cherbyd arall yn gymhlethedig yn yr amgylchiad. Nid oedd hyd yn oed drofa yn y ffordd. Gadawyd dyfarniad y cwest yn benagored.

I hyrwyddo'r ymholiadau galwyd arnaf i roi rhestr o gynnwys y car. Canfyddwyd fod anrhegion priodas Bet i gyd yno a'i heiddo personol. Ond ni chanfyddwyd byth mo'r drych bach o Blas Cammelis.



SIOP GREFFTAU

CAFFI

CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. – 3 p.m.
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig



Bistro

43 - 45

Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: 871278



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Dathlu pen-blwydd yn 18 oed: Mae nifer o ieuenctid y pentref yn dathlu eu pen-blwydd yn 18 oed yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror. Estynnwn ein llongyfarchiadau gorau i'r dyfodol i — Non Llewelyn, Stad Eryri, Ionawr 16; Sarah J. Green, 1 Corra Linn, Ionawr 30; a David Llewelyn Roberts, Tan-y-buarth, Chwefror 16. Pob lwc i'r tri ohonoch.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Arwel Jones, Y Rhos, ar enedigaeth merch fach yn ystod y mis. Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs Speak, Ty'n 'Radd ar enedigaeth merch fach, Illid.

Diolchiadau: Dymuna Emlyn Hughes, Bethlyn, a Merfyn Hughes, Tŵll Clawdd, a'r teulu, ddiolch i gyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli eu mam. Mae'r rhoddion a dderbyniwyd er cof am Mrs Hughes wedi eu cyflwyno i gapel Peniel, Rhiwlas.

Yr Urdd: Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen leol, o dan lywyddiaeth Geraint Elis, yn ddiweddar gan dynnu allan raglen y tymor. Mae trefniadau mewn llaw hefyd i baratoi'r aelodau ar gyfer yr Eisteddfodau lleol sydd i'w cynnal yn fuan. Dylid anfon ffurflenni cystadlu i'r Ysgrifennydd, Eirlys Williams, neu i Glenys Griffiths, erbyn Chwefror 18fed os gwelwch yn dda.

Cynhelir Noson Goffi yn y Neuadd Goffa ar nos Wener, Mawrth 4ydd, pryd y ceir cyfle i ddyfuno'n dda i aelodau'r Gangen cyn iddynt gystadlu yn yr Eisteddfod Cylch.

Yn ddiweddar bu rhai o aelodau'r Gangen yn cymeryd rhan mewn cystadlaethau pêl-droed 5-bob-ochr o dan 12 oed yn Neuadd Chwaraeon Arfon ym Mangor. Bu dau dîm yn cystadlu a llwyddodd un tîm i ddod yn ail drwy ennill y gystadleuaeth i Adranau Pentref, a cholli o un gôl mewn gêm glôs iawn i dîm o Ysgol yr Hendre, Caernarfon, yn y rownd derfynol. Aelodau o'r tîm llwyddiannus oedd Mark Williams, Owain Siôn, Owain Ginsberg, Aled Vaughan, Ianto Jones a Paul Thomas.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd nos Fercher, 12fed Ionawr o dan lywyddiaeth Eirlys Williams. Diolchwyd i Deilwen Hughes a Glenys Griffiths ac i bawb a

gymerodd ran yn y noson Dathlu'r Nadolig gan nodi fod elw'r noson wedi cyrraedd £100.

Cydymdeimlwyd â Mrs Bessie Ellis yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, a dymunwyd yn dda i Mrs M. G. Williams sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd Non, merch Alys Jones ar ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Bydd Gwyneth Jones a Nora Parry yn cynrychioli'r gangen mewn noson o ddistawrwydd noddedig sydd wedi ei drefnu gan bwyllgor yr anabl.

Y gŵr gwadd oedd Mr Gwilym Williams a chafwyd noson ddifyr a hwyliog yn ei gwmni wrth iddo ddweud ei hanes trwy sgwrs a sleidiau yn crwydro Awstralia. Diolchwyd iddo gan Mair Jones. Enillydd y raffl oedd Margaret Williams ac Edwin Morris, Eifiona Jones ac Ann Lewis oedd yng ngofal y baned.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Chwefror 9fed gyda Pat Jones, Brynrefail, yn wraig wadd.

Clwb 200 y Neuadd: Enillwyr gwobrau y Clwb 200 am fis Rhagfyr oedd — £20: Ian Mercer, Rhoslyn, Tan-y-ffordd (9); £10: Catherine Jones, Y Ddolwen (21); £5 yr un: John Williams, 15 Y Ddôl (125), Gareth Owen, 18 Cremllyn (17), Gareth Jones, Llys Elen, Tre Gof (224), Freda Jones, 3 Rhos-lan (151), Margaret Jones, Cefn Isaf (133), Mona Williams, 9 Bro Rhos (175), Gwynfor Ellis, 5 Rhos-lan (74), Mark Jones, Cefn, Llanddeiniolen (46).

Cangen Plaid Cymru: Yn ôl traddodiad fe drefnwyd noson gymdeithasol ddechrau'r flwyddyn unwaith eto ac yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon, y cynhaliwyd clamp o dwmpath dawns. O gofio gloddesta'r Wyl, trodd yn syniad gwych gan fod pawb yno rwy'n siŵr wedi llwyddo i golli ambell i bwys. 'Roedd yn noson hwyliog iawn, yn nwylo — neu draed — hynaws Gareth Jones, y galwr. Mae Gareth yn dwmpathwr profiadol iawn ac roedd i'w ganmol am ei amynedd gydag ambell i Fred Astair a fentrodd i'r llawr. Braf oedd gweld nifer o ddawnsuwr o grwpiau cenedlaethol yn ymuno yn y noson. Yn sicr nid yw'r twmpath yn rhywbeth 'marw' ac yn sicr nid yn gyfyngedig i unrhyw oedran penodol. Trwy gydol y noson hirfaith cafwyd cefnogaeth fywiog y grŵp Aderyn

Prin. Roedd cwpwl ifan o'r Almaen yn aros yn y gwesty a bwriadodd y ddau i hwyli y noson â sbri! Y Blaid unwaith eto yn dangos ei hun yn Blaid Ewropeaidd! Er mwyn cynnal y naws Geltaidd rhaid canmol y sawl

a drefnodd fod noson Guinness ymlaen yn y gwesty. Yn sicr, roedd angen 'Gwin y Gwan' ar ôl yr holl ddawnsio. Diolch i'r pwyllgor am drefnu noson hwyliog ac i'r criw arferol am eu cefnogaeth parod.



Gwilym Humphreys yn darlithio i Gymdeithas Lenyddol Undebol Bethel.

Y Gymdeithas Lenyddol Undebol: Gwilym Humphreys, Cyfarwyddwr Addysg Gwynedd, oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Ionawr. Cymerodd fel ei destun 'Gwerthuso'. Cyn dod at brif nodweddion ei destun rhoddodd amlinelliad o'i yrfa a'r gwahanol ddylanwadau a ddeilliodd o hynny. Fe'i ganwyd yn yr un ardal â Saunders Lewis, sef Wallasey. Gwelodd olau ddydd am y tro cyntaf ar y Sul a bu i'r diwrnod hwnnw nodweddion arbennig iddo. Treuliodd bum mlynedd o'i oes gynnar ym Mae Colwyn cyn symud, yn 1937, i Mans y Capel Mawr yn y Rhos. Y Rhos bryd hynny gyda 26 o gapeli a 27 o dafarnau. Cofiai 850 o aelodau yn y Capel Mawr yn ystod y cyfnod hwn a'r capel yn 'tywyllu' wrth i'r gynulleidfa godi ar ei thraed ar y galeri gan bylu'r golau a dreiddiai drwy'r ffenestri. Ai hyn yw ystyr y dywediad am esgeluswyr na fyddent 'byth yn tywyllu'r capel'? Fe sefydlwyd Urdd yn y capel er mwyn magu cyfathrach rhwng diwylliant a chrefydd. Cafodd ei ddylanwadu gan ddau o is-weinidogion y capel (ac yn rhinwedd eu swyddi fel arweinyddion yr Urdd), y Parchedigion O. J. Pritchard ac Ednyfed Thomas — bu farw'r ddau yn ddiweddar wedi blynyddoedd o 'wir wasanaeth' i'r ardaloedd hyn. Bu'n flaenor mewn tri

chapel — Llangefni, Heol y Crwys Caerdydd a Chapel y Graig, Penrhos. Fel un a fagwyd yn swm y corau mawr yn y Rhos nid rhyfedd nodi ei fod erbyn hyn yn arweinydd y gân. Talodd deyrnged i'r sol-ffa — y sustem sy'n magu y gwir gantorion. Dyfynnodd o Y Siswrn, Daniel Owen, ble y cyfeirir at godi ei hen daid yn flaenor yn ardal yr Wyddgrug yn ystod yr 1860au.

Gorffennodd drwy gyfeirio at erthygl a gyfrannodd i'r *Goleuad* yn ddiweddar gan gyfeirio at yr arferiad fodern o werthuso swydd — yn y cyswllt hwn y swydd o weinidog, blaenor ac aelod. Gofynnodd pa adnoddau sydd ar gael, a beth yw'r targedau a osodir ar bob haen. Yr oedd y ddarlith yn amserol, ac fel pob darlith effeithiol, yn annog trafodaeth.

Yng nghyfarfod mis Chwefror y darlithwyd gwadd fydd Meinir Pierce Jones a'i thestun fydd 'Mewn Gair — Plesio Plant'. Cynhelir y cyfarfod ar Chwefror 15 yn festri Capel Bethel. Bydd croeso cynnes i bawb.

Diolch: Dymuna Non Llywelyn ddiolch i berthnasau, ffindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.



Aelodau pwysig y Gymdeithas — Sheila, Eirlys, Nan a Margaret — gofaluwr am y baned!

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

AMDDIFAD YN LIMBO gan Miss O. M. DAVIES, Bangor

'Roedd Yncl Edward yn stiward yn Chwarel Dinorwig; gwisgai legins lledr brown a chariai ffon i fynd i'w waith. Roedd hefyd yn gerddor da. Ef a chwaraeuai'r organ yn Eglwys Sant Padarn a meddai ar lais tenor soniarus, yn ôl a glywais. Mae gennyf gof ohonom ni blant, wedi inni gael ein gyrru i'n gwelyau, yn clywed tipyn o brysurdeb i lawr yn y parlwr ac yn criplan yn slei i eistedd ar dop y grisiau yn y tywyllwch. Cyn bo hir clywem sŵn piano a chanu — 'roedd Yncl Edward yn cynnal ymarfer wythawd neu bedwarawd.

Roedd metronome ar ben y piano a baton yn hongian ar y wal. Gan ei fod yn chwarae'r organ yn y Boreol Weddi, y gwasanaeth Cymraeg, ac i'r gwasanaeth Saesneg, Matins, byddwn i yn aros ac yn ymuno yn y defodau ac felly'n ymgysguddo yn y ddwy iaith. Saesneg oedd fy iaith gyntaf gan mai Saesneg oedd iaith gryfaf fy nhad. Ond, wrth gwrs, mewn ardal mor Gymreig a Llanberis buan y troisom i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith yr aelwyd, iaith chwarae, iaith stryd, ond deuthum i yn ddwyieithog yn y Llyfr Gweddi Cyffredin er mai yn Gymraeg yr oedd bywyd yr Ysgol Sul.

Un nos Sadwrn pan oeddym wedi cael ymolchi o flaen tanllwyth o dân yn y gegin fach, ac Anti'n plicio'r tatws a'r moron erbyn cinio dydd Sul, clywais sŵn ei draed ar y cowt. Yna roedd wrthi'n cael dipyn o sbort efo fy mrawd bach. Y peth nesaf a welais oedd y chwarae'n peidio ac Yncl Edward yn plygu i lawr a ffrwd o waed yn dymchwel yn llifeiriant o'i geg i bowlen wen ar y llawr. Drwy fisoedd hirion y gaeaf roedd yn ei wely yn y llofft ganol, tân glo yn y grât, a'i gyfeillion yn dod yn eu tro i warchod drwy'r nos. Roedd distawrwydd wedi disgyn ar y tŷ, Anti'n cario pwcedaid o lo i fyny'r grisiau, a'm brawd bach yn cael row am weiddi. Bu farw o'r diciâu. Dywedodd Anti wrthyf ei fod wedi edrych arnom gan ddweud, 'y pethau bach ar hanner eu magu'. Yna trodd ei wyneb at y wal.

Cafodd gynhebrwng mawr gydag un ar bymtheg o gerbydau yn ôl yr a ddywedodd Anti. Beth a gofiai yw llawer o ddynion mewn dillad duon yn llenwi'r parlwr ffrynt, eraill yn casglu'n dawel yn y stryd. Yna doent i mewn fesul un a rhoi pisyn arian ar y lliain gwyn a oedd ar gongl y bwrdd. Wedi rhoi'r offrrwm aent allan drwy'r gegin ganol ac i'r cefn

lle roedd y cymdogesau yn rhoi cymorth i Anti, ac yn paratoi pryd o fwyd i gydweithwyr Yncl a oedd wedi dod o bellter i'w hebrwng. Roeddwn i a'm chwaer yn eistedd ar y sofffa. Sylwais ar ŵr gweddol ifanc yn eistedd ar y gadair ger y drws, wedi ei wisgo'n dwt a het gantal ddu yn ei law. Ni siaradodd â neb fel y cerddem allan i ddechrau'r siwrne hir i fynwent Nant Peris. Hwn oedd Tom, brawd ieuengaf fy mam. Cawsai ef fynd i Rydychen pan oedd a'i fryd ar fynd yn Berson. Ond trigai nawr yn Lerpwl a phriododd Saesnes. 'Tipyn o gadiffan' yn ôl Anti. Doedd dim da rhyngddo ag Anti na chynt nac wedyn. Y tu allan roedd y Rheithor, D. P. Thomas, yn gweddio a'r dyrfa'n dwys-ganu 'O Fryniau Caersalem ceir gweled / Holl daith yr anialwch i gyd . . .' Cofiai y fynwent a hen eglwys Sant Peris dan guwch y mynydd, y Person yn ei wenwisg, ac Anti'n crio.

Y nos Sul ganlynol roedd eglwys Sant Padarn yn orlawn. Y tro hwn nid Yncl Edward oedd wrth yr organ ond Mr Richard Jones, a adwanem fel Alaw Mai ac yntau'n gerddor ac organydd, ac ef a berai i'r 'Dead March in Soul' i ddiasbedain trwy furiau cadarn yr adeilad. Trigai yn rhif 7, ac yn y tŷn pen — rhif 8 — roedd tad fy mam yn byw, yn hen ŵr yn nesu at ei bedwar ugain oed yntau wedi colli ei fab a'i ferch o'r diciâu cyn iddynt gyrraedd eu hanner cant oed. Bu farw Nain yn fuan wedi i ni gyrraedd Llanberis. Hanai hi o Eifionydd. Clywais am frawd iddi a oedd yn Berson yn Solfach, sir Benfro; darllenais lythyr a anfonodd wedi marw fy mam yn galaru am 'Neli annwyl'. Roedd brawd arall i Nain yn ffermio yn Pencoed Uchaf, Llangybi, ac yn ddibriod. Unwaith y'i gwelais erioed pan daeth i'n gweld rhyw ddydd o haf. Rhoddodd hanner coron yr un i ni'r plant a swm helaethach i Anti. Roedd Yncl

Pencoed, fel y galwem ef, i gael rhan tyngetfennol yng ngwrs fy mywyd yn nes ymlaen.

Y cof sydd gennyf am Taid oedd ei fod yn hercian wrth gerdded; yr oedd wedi torri ei goes pan syrthiodd ar Lyn Padarn pan rewodd hwnnw drosto yng ngaeaf caled 1895. Gan ei fod yn stiward yn y chwarel roedd ganddo waith cownt i'w wneud a chawn fynd i'w helpu ar nos Wener. Roedd y parlwr yn 'stafell fyw iddo gan fod ganddo howscipar i edrych ar ei ôl. Byddai tân siriol yn y grât, ac ar ganol y bwrdd mawr lamp tipyn mwy modern na'n lampau oel ni. Dyma lamp 'Aladdin' gyda golau gwyn clir yn dod o fath o fantl tebyg i rai a welais wedyn lle roedd golau

nwy. Byddai popeth wedi'i osod allan yn barod — potel o inc du a photel o inc coch, pren hir o eboni, pinnau ysgrifennu dur, pensiliau, papur blotio, a llyfrau cownt mawr trymion. Galwai Taid enw chwarelwr a byddwn innau yn edrych mewn llyfr llai ar restr o gyflogau mewn pensil, ac yna'n galw allan y swm, e.e. £1 12s. 9d. Yn y dauddegau byddai isrif cyflog y chwarelwr o gwmpas y swm yna. Ond byddai rhai fel rybelwyr a hogiau ifanc yn cael llai o lawer. Credaf bod cyflog gwas fferm tua £1 5s. yr adeg hynny. Cawn swllt gan Taid am ei helpu. Yr oeddwn yn saith oed ar y pryd.

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Gwasanaeth Nadolig: Bnawn Sul, Rhagfyr 19eg, cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu'r Nadolig yng Nghapel M.C. Brynrefail. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan y Gweinidog, y Parchg John Morris. Yn dilyn cafwyd cyflwyniadau o ddarlenniadau a cherddi Nadoligaidd eu naws gan Mrs Jennie Hughes, Mrs Verna Jones, Mrs Jennie Roberts, Mrs Ellen George, Miss Rhian Davies, Miss Lowri Prys Roberts, Mrs Betty Owen, Mrs Carol Houston, Mr Gwyn Hefin Jones, Mrs Ifanwy Jones a Mr Richard Wyn Evans. Yn ystod y gwasanaeth hefyd cymerwyd rhan gan athrawesau'r Ysgol Sul, Mrs Mair Davies a Mrs Dwynwen Williams, ynghyd a phlant yr Ysgol Sul o dan eu hyfforddiant. Cafwyd cyfraniadau graenus ganddynt ac anrhegwyd hwy ar ran yr Eglwys gan Mrs Jennie Roberts. Trefnwyd y gwasanaeth gan Miss Lowri Prys Roberts a llywyddwyd y cyfarfod gan Mr R. W. Evans. Ar y terfyn mwynhaodd pawb o'r gynulleidfa luniaeth yn y Festri wedi ei drefnu gan Gymdeithas Chwiorydd yr Eglwys.

Cofion: Mae Mr Elwyn Jones, 1 Trem Eilian, yn ystod y mis wedi symud i fyw o'r pentref at ei ferch a'i phriod, Ann a Garry Williams, 21 Parc Muriau, Caernarfon. Yn un o feibion Llwyn Helyg bu'n trigo yn Siop Elidir a Gwynfa am gyfnodau byr cyn symud i Drem Eilian dros bum mlynedd ar hugain yn ôl. Bydd ffrindiau a chymdogion yn colli ei gwmni o'u plith. Anfonir y dymuniadau gorau iddo wrth ymgartrefu yng Nghaernarfon.

Cyfarfod Dechrau Blwyddyn: Yng Nghapel M.C. Brynrefail fore Sul, Ionawr 9fed, cynhaliwyd cyfarfod gweddi dechrau blwyddyn. Arweiniwyd yn y defosiwn gan y Gweinidog, y Parchg John Morris. Yn dilyn cymerwyd rhan gan Mrs Jennie Roberts, Miss Lowri Prys Roberts, Mr Richard W. Evans a Mr Bertie Roberts a oedd hefyd yn llywyddu'r cyfarfod. **Cydyndeimlo:** Cydyndeimlwn â Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yng Nghasnewydd.

Sefydliad y Merched: Nos Fawrth, Ionawr 11eg, daeth pwyllgor y gangen ynghyd i drefnu rhaglen am y flwyddyn ac etholwyd Mrs Mai Davies fel trysorydd newydd y gangen i olynu Mrs Gwawr Morris. Cyfarfu'r holl aelodau nos Lun, Ionawr 17eg, dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones, a threuliwyd y noson yn cadarnhau gwaith y pwyllgor a thrafod y Cyngor Gwanwyn a gynhelir yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, Ionawr 29ain. Trefnwyd y banded gan Mrs Mai Davies a Mrs Dwynwen Williams. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Mai Davies, gan Mrs Carol Houston. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Chwefror 21ain, pryd y disgwylir Mrs Esme Dyson o'r Felinheli i roi sgwrs ar hen bethau, yn arbennig hen emau. Gwahoddir yr aelodau i ddod ag enghreifftiau i'w harddangos a'u trafod.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Capel Coch: Cynhelir cyfarfod nesaf Chwariydd Capel Coch a Rehoboth yn festri Capel Coch am 2 o'r gloch, ddydd Iau, Chwefror 3.

Y Gymdeithas Lenyddol: Mr Gwilym Williams, Bethel, oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn festri Capel Coch ar Ionawr 11. Cafwyd sgwrs a sleidiau diddorol ganddo ar hanes y grefft o drin y tir ar hyd yr oesoedd. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchg Gwynfor Williams a diolchwyd gan y Parchg John Pritchard.

Rhedwyr: Llongyfarchiadau i Alun Vaughan am redeg yn ras Traws Gwlad Gogledd Cymru. Yn y ras Brydeinig yn Luton roedd Alun yn rhedeg yn gryf iawn ac roedd gobaith iddo gael medal. Ond cafodd ei basio ar y llinell derfyn ac roedd rhaid bod yn fodlon ar y pedwerydd safle, dim ond pum eiliad yn unig ar ôl yr enillydd.

Llongyfarchiadau i Elin Hardin a Gareth Jones am ddod yn ail yn y ras traws gwlad ym Mae Colwyn.

Apêl Tŵr Eglwys St. Padarn: Ar ddwy noson yn ystod mis Rhagfyr bu llond lori o gantorion o gwmpas y pentref yn canu carolau. Er gwaethaf yr oerni cafwyd hwyl a sbri ac roedd yn fenter gweddol newydd yn y pentref. Diolch diffuant i Mr Dennis Davies, Glan Aber, am roi benthg ei lori a'i amser yn ddi-dâl; i'r Capel Coch am gael benthg yr offeryn; i Gareth Jones am gyfeilio; i Sandra ac Emlyn am y siocled poeth a'n disgwylia i ym Mryn Tirion.

Ar nos Iau, Ionawr 13eg, cafwyd noson o ganu 'Codi'r To' yng Ngwesty Dolbadarn a chafwyd noson o ganu gwych a phawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch i Mr Arwel Jones am lywyddu'r noson; i Mr Aneurin Jones am ganiatáu cael cynnal noson fel hyn yn ei westy; i Gôr Dyffryn Peris a Llesiau Lliwedd, heb anghofio wrth gwrs, Hogia'r Wyddfa. Y cyfeilyddion oedd Annette Bryn Parry a Hefina Jones a diolchir iddynt hwythau am eu gwaith rhagorol. Enillwyd y raffl gan: 1, Anne, Ysgol Bodffordd; 2, Elizabeth Wilkinson, Caernarfon; 3, Dilys Mai Hughes, Llanberis; 4, Eunice Roberts, Llanberis; 5, Ernest Owen, Llanberis; 6, Gwyneth Roberts, Llanberis. Gwnaed elw o £422.20 tuag at gronfa'r Apêl. Diolch i bawb sydd yn trefnu ac yn gofalu bod

gweithgareddau yn cael eu cynnal o fis i fis a diolchwn i bentrefwyr Llanberis am eu cefnogaeth hael.

Cymdeithas Eglwys St. Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yn Eglwys St. Padarn ar nos Iau, Ionawr 6ed, o dan lywyddiaeth Mrs Evelyn Williams, yn absenoldeb Mrs Ann Parry-Jones. Offrymwyd gweddïau addas i Wyl yr Ystwyll gan Mrs Moreen Lennon. Croesawyd yn gynnes y gŵr gwadd, Mr G. Rees Parry o Lanrug, a chafwyd noson ddiffr iawn yn ei gwmni hynaws yn hel atgofion o'i deithiau i'r Cyfandir gyda rhai troeon eitha trwstan yn ei wynebu mewn rhai gwledydd; a sut y daeth erbyn hyn i ffurfio ei gwmni teithio ei hun — Teithiau'r Grug — sy'n mynd, y rhan fwyaf o'r amser, dros y dŵr. Darparwyd y banded a'r raffl gan Mrs Hilda Williams a Mrs Olwen Roberts gyda Mrs Betty Williams yn ennill y raffl. Diolchwyd iddynt hwy ac i Mr Parry ar ran yr aelodau gan Mrs Margaret Ellis, Nant Peris.

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Enillwyd am 1/1/94 yw — £35: Ceri Jones, 30 Stryd Fawr, Llanberis (31); £25: Mrs G. Roberts, Hyfrydle, Llanberis (48); £15: Mrs J. Roberts, 13 Stryd Goodman, Llanberis (32); £10: Mrs B. Parry, Plas Eilian, Llanberis (118); £5: Mrs A. Jones, 46 Dôl Elidir, Llanberis (25).

Diolch: Dymuna Mr William Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty, ac ar ôl dod adref. Diolch yn arbennig i feddygon a gweinyddesau Ward Glyder, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal diflino tra bu yno.

Diolch: Dymuna Eirian a staff Bron Eryri ddiolch am y gefnogaeth a gwasant yn eu Ffair Nadolig.

Ysgol Dolbadarn: Croeso nôl i Ysgol Dolbadarn i Iona Vaughan, Rhesdai Cambrian. Mae Iona ar hyn o bryd yn fyfyrwraig yng Ngholeg Pencraig yn Llangefni. Bydd yn dod atom i'r ysgol am un diwrnod yr wythnos dros y tri mis nesaf fel rhan o'i chwrs coleg. Gobeithio bydd yn hapus iawn tra bydd gyda ni yn ei hen ysgol. Mae'n siŵr bod y rhan fwyaf o ysgolion braidd yn foel yr olwg ar ddechrau blwyddyn wedi i addurniadau'r Nadolig gael eu cadw. Ond nid felly



Urdd Sant Iwan: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs G. Morgan, 11 Llainwen Isaf, ar ennill gwobr o dri cêd peilot (rhoddwyd gan gwmni Delsey) yn y raffl fawr a gynhaliwyd gan Urdd Sant Iwan. Mae'r elw a wnaed o werthiant y tocynnau raffl wedi galluogi'r adran i brynu dól hyfforddi ar gyfer cynnal cyrsiau i ddysgu pobl leol sut i achub bywyd.

Mae Cymdeithas Rhieni y mudiad lleol, o dan ofal Mrs M. Price, Llanberis a Mrs M. Williams, Llanrug, wedi bod yn brysur iawn yn casglu arian a bellach wedi prynu dól hyfforddi ar gyfer plant lleol Urdd Sant Iwan a mawr yw'n diolch i'r ddwy fam.

mae hi yn Ysgol Dolbadarn eleni. Bu'r artistiaid Debbie Corvell a Dylan Owen gyda ni eto am ddiwrnod yn gynnar yn y tymor newydd yn addurno un o ffenestri mawr yr Ysgol gyda'r plant. Mae ein ffenestr lliw newydd yn hardd iawn. Bydd y ddau yn dychwelyd yn fuan i orffen y gwaith a chaiff dosbarth arall o blant brofiad o gydweithio â hwy. Anfonwn ein cofion at un o'r disgyblion a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cafodd Beci Jones lawdriniaeth y 'pendics' yn Ysbyty Gwynedd. Brysia i wella.

Yr Urdd: Cafwyd pwyllgor ar ddechrau'r tymor i drefnu rhaglen ar gyfer yr wythnosau nesaf. Bwriedir rhoi tipyn o amser i baratoi ar gyfer gwahanol gystadlaethau yr Eisteddfod Gylch a gynhelir ar Fawrth 5ed.

Côr Meibion Dyffryn Peris: Roedd mis Rhagfyr yn fis prysur iawn i'r Côr. Dechreuwyd trwy roi cyngerdd i 'Glwb Bytholwyrdd' Groeslon yng Ngwesty Dolbadarn. Yna ar noson o wynt a glaw mawr cynhaliwyd cyngerdd yng Ngwesty Rhos Abbey Glan Conwy pan ddaeth nifer fawr ynghyd i gasglu arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn. Fe gafwyd noson o ganu carolau gyda Chantorion Llanberis yn

Eglwys Sant Padarn; casglwyd swm o arian tuag at Gronfa Tenovus. Bu'r Côr yn canu carolau ym Mhlas Pen Gwaith ac hefyd ym Mron Eryri. Trefnwyd noson i ganu carolau yn Nant Padarn gan Mr Gwynfor Roberts, Ffordd Capel Coch, ond siomedig iawn oedd y nifer a ddaeth ynghyd. Roedd y tywydd mor oer a gwlyb mae'n siŵr. Diweddwyd y mis trwy gael cinio Nadolig yng Ngwesty Dolbadarn. Fe ddiolchodd Cadeirydd y Côr, Mr Cyril Jones, i Arwel a Hefina ac aelodau eraill o'r Côr a fu'n brysur trwy'r flwyddyn yn 'cadw pethau i fynd' yn weddol rhwydd. Cyflwynwyd anrheg i'r ddau am eu gwaith. Hefyd cyflwynwyd rhodd i Arwel gan Mr a Mrs Ted Anwyl, Nant Peris, sydd wedi bod yn ffyddlon iawn i'r Côr ers dod i fyw i'r Nant. Fe garai'r Côr ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb, a diolch am eich cefnogaeth yn 1993. Goronwy Lewis

Dyweddiad: Saynor-Pitts. Pleser yw cyhoeddi dyweddiad Christine, merch Meira a Bert Pitts, 2 Bro Rhyddallt, Llanrug, â Terry, mab Pat a Charlie Saynor, 42 Maes Padarn, Llanberis. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu, a diolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd.

Heliwch eich traed am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470**



**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



**Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff**

**Gwynedd
Hotel
& Restaurant**

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Cyngor Eglwysig: Cynhaliwyd oedfa yng Nghapel Libanus nos Lun, Ionawr 10. Llywyddwyd gan Mr Tydfil Jones ac arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchg John Pritchard.

Cyngerdd Ysgol: Nid yw'n rhy hwyr gobeithio i ni fel ardalywyr longyfarch plant Ysgol Gwaun Gynfi ar lwyddiant y Cyngerdd Nadolig a gynhaliwyd yn Neuadd yr Ysgol. Cafwyd dau berfformiad ar Ragfyr 16, y naill yn y pnawn a'r llall gyda'r nos. Mwynhawyd y cyngerdd yn fawr iawn gan y ddwy gynulleidfa. Llongyfarchiadau i'r plant am berfformiadau graenus, a diolch i'r Prifathro a'r athrawon am eu holl waith ar gyfer y Cyngerdd.

Ysgol Gwaun Gynfi: Gwnaed elw o £195.86 yn ystod y noson bingo cyn y Nadolig. Cynhaliwyd Ffair Lyfrau yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Gwerthwyd gwerth dros £400 o lyfrau, diolch i bawb am eu cefnogaeth. Bydd Ffair Basg yn cael ei chynnal yn ystod y tymor yma.

Llongyfarchiadau i enillwyr Clwb 100 yr Ysgol. Mis Tachwedd — 1, Nia Williams; 2, Siôn Roberts; 3, Yvonne Hughes. Mis Rhagfyr — 1, Caroline Wilcox; 2, Debbie Guy; 3, Tydfil Jones. Gohebwyd: Wayne a Julie.

Diolch: Dymuna Mr John E. Morris, Rhiwen, ddiolch am yr holl ddymuniadau da, anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn wyth deg oed. Diolch yn fawr.

Ymweliad yr Esgob: Bydd y Gwir Barchedig Ddr Barry Cennydd Morgan, Esgob Bangor, yn ymweld â phlwyfi Penisarwaun a Llandinorwig ar ddydd Llun, 14 Chwefror. Bydd yr Esgob yn treulio y diwrnod cyfan yn y plwyfi ac y mae'n awyddus i gyfarfod â phobl wrth eu gwaith, disgyblion ac athrawon yr ysgolion a'r cleifion. Bydd gwasanaeth byr yn Eglwys Crist, Llandinorwig am 11.30 y bore hwnnw ac fe'i dilynir gyda chinio o gawl poeth a bwffe. Yn y prynhawn am 4.30 bydd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun. Bydd te a lluniaeth ysgafn yn Neuadd yr Eglwys ar dderbyn y gwasanaeth hwn. Gwahoddir pawb sydd yn dymuno cyfarfod a chael sgwrs â'r Esgob i'r naill gyfarfod neu'r llall yn ystod yr ymweliad. Am fanylion pellach cysyllter â'r Parchg Tegid Roberts.

Gwasanaethau Eglwys Crist, Llandinorwig — Bydd y newidiadau canlynol yn ngwasanaethau Eglwys Crist yn weithredol o ddydd Sul, 6 Chwefror 1994 ymlaen:

Sul 1af — Cymun Bendigaid am 5pm
2il Sul — Cymun Bendigaid am 8.30am. Gosber am 5pm

3ydd Sul — Cymun Bendigaid am 5pm

4ydd Sul — Boreol Weddi am 10am

5ed Sul — Gosber ar yn ail hefo St Mair, Dinorwig, neu drefniadau eraill. Cyhoeddir unrhyw drefniadau arbennig yn y wasg.

TAN Y COED

Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn. Ffôn: 872276

Llongyfarchiadau i Mrs Gwyneth Thomas, Gwelfor, Tai Trefor, ar fod yn 'Fyfrwraig y Flwyddyn' mewn cwrs fferylliaeth (pharmacy) yng Ngholeg West Mercia, Caer. Bydd yn cael ei gwobrwyo yng Nghadeirlan Caer ar ddydd Gwener, Ionawr 29ain.

Llongyfarchiadau calonnog i Delyth Tomos, Tan y Cae, ar ei llwyddiant, gyda rhagoriaeth, mewn arholiad gyda'r Brifysgol Agored. Pob lwc i'r dyfodol, Delyth.

Cydymdeimlwn â Christine Templeman, Tan y Bryn, a'r teulu oll ar golli ei mham, Mrs Hannah E. Challons, Erw Hywel.

Colledion: Cydymdeimlwn â dau deulu a fu'n aelodau yng nghapel Tan-y-coed — teuluoedd y ddiweddar Mrs Mary Ellen Wynne a'r diweddar Mr Robert Arfon Jones, a'r ddau wedi bod yn aelodau ffyddlon o'r eglwys.

Bu farw Mrs Wynne yn ei chartref newydd yn Llanfairfechan ar Ragfyr 22sain, ac fe'i claddwyd ar yr 28ain o Ragfyr gyda gwasanaeth cyhoeddus yng nghapel Tan-y-coed a'r gladdedigaeith yn dilyn ym mynwent y plwyf, Llanrug.

Cyn symud i Lanfairfechan cartrefai Mrs Wynne a'i phriod yn Gelliad. Collodd yr ardal gymdogion croesawgar gan y byddai Mrs Wynne bob amser yn derbyn ymwelydd â gwên a chroeso. Tra y gallodd bu Mrs Wynne yn aelod ffyddlon yn Nhan-y-coed ac wedi iddi fethu a dilyn yr oedfaon cymerai ddiddordeb yng

ngweithgareddau ei heglwys. Flynnyddodd yn ôl, pan oedd y Gymdeithas Lenyddol mewn grym, cymerai ran flaenllaw fel aelod a chofia llawer am ei hiwmor iach a'i actio doniol mewn amryw sgets byrion. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i phriod, Mr R. E. Wynne, ei mab Owen Edwin, a'i merch Einir, y tri a fu'n fawr eu gofal ohoni.

Bu farw Mr Robert Arfon Jones, gynt o 5 Tai Bryngwyn, Llanrug, yn Ysbyty Gwynedd, ar Ragfyr 24, a chladdwyd ef ar y 29ain o Ragfyr gyda gwasanaeth cyhoeddus yng nghapel Seilo, Caernarfon, a'r gladdedigaeith yn dilyn ym mynwent y plwyf, Llanrug.

Symudodd Mr Jones i fyw i Gaernarfon wyth mlynedd yn ôl gan ymaelodi yng nghapel Seilo. Cyn symud i'r dref Tan-y-coed oedd ei eglwys ac fe roddodd Mr Jones ei orau i'w eglwys. Bu'n drysorydd yr eglwys am flynyddoedd, yn aelod ffyddlon o bwyllgor yr adeiladau, yn barod ei wasanaeth bob amser — yn y dirgel ac yn gyhoeddus. Colled fawr i'r ardal ac i'w eglwys oedd ei ymadawiad o'r cylch — cymwynaswr parod ydoedd bob amser. Dioddefodd gystudd hir a blin a hynny heb rwgnach ac yr oedd yn barotach i ddiolch nac i gwyno.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf i'w briod, Mrs Nancy Jones, i'w fab, Arwel — dau a fu'n ofalus iawn ohono ac a John Glyn, ei nai, a'r teulu oll yn eu hiraeth a'u galar.

CAMERA'R ECO

Mae angen rhywun i ofalu am un o gamerâu yr Eco yn Neiniolen.

Mae'r manylion am y cynllun newydd i'w gweld ar dudalen 2, a dylai unrhyw un sy'n barod i gynorthwyo gysylltu ar fyrder â:

Gwyndaf Hughes
Llanrug (677263).

Grni • Bedyddio • Lloed • Priodas

Achlysur arbennig?
Anrheg unigryw?
Beth am un o sampleri

PWYTHAU CAIN

Cynllunir pob samplwr yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

Hefyd gwniadwaid o bob math gwaenud dillad, newidiadau, ffenni, a.g.y.b.

Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darnau o farddoniaeth

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partion, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

Trefniadau Blodau Sych a Ffres yn ôl eich gofyn Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres



Galwch neu ffoniwch

870605

am fanylion

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej


Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CROESAIR CHWEFROR




AR DRAWS

1. Arf boreol perchennog newydd tafarn Cwm Deri, ond nid ei ragflaenydd (5)
4. Gwraig Llywelyn Fawr, ond merch Brenin Lloegr (5)
10. Nifer o'r rhai sy'n llosgi'n llachar yn fforest y nos, yn ôl y bardd (7)
11. Yr enw a roir ar y maes chwarae yn Wimbledon (5)
12. Daeth hi a'i thebyg yn wreiddiol o asen Adda (5)
13. Nid Alaw sy'n rhoi'r hawl i chi gael arian cyfadferol (7)
15. Chwarter chwarter pwys (4)
17. Gwaith diflas, medda' nhw, ydi gwylio hwn yn sychu (5)
19. Difreinio (5)
22. Mae'n dda gweld fod rhywbeth go iawn yn dod o briodas Andre a Lowri (4)
25. Lludded ddaw o gymysgu pum cant Berlin (7)
27. Hanfod (5)
29. Mae'n canu am gaws Llŷn a menyf Eifion (5)
30. Y stâd o lawnder, perfffeithrwydd (7)
31. Yr hyn a wneir mewn 'blychau sgâr, afrosgo' yn ôl bardd arall (5)
32. Er mwyn osgoi damwain, dylid rhoi trefn ar y falog! (5)

I LAWR

2. Y wobwr am ddod yn ail (5)
3. Aelodau UCAC (7)
5. Safle'r pen-glin o'i gymharu â'r penelin (5)
6. Rhai oriog ydi Alaw a Dan pan mae'r ddau wedi meddwi (7)
7. Fe wlychir cefn y Frenhines wrth ddefnyddio hwn (5)
8. Yn ôl yr hyn a glywaf, mae'r dyn yma'n gwywo (5)
9. 'Caf' er hynny wrth Bont y Tŵr — oedi am ychydig wnaeth Caradog (5)
14. Si rhwng pennau Ann ac Alis am un o'r cyfandiroedd (4)
16. Lôn, neu heol fach (4)
18. Un sy'n asio (7)
20. Hen foi isel yn mynd o gwmpas y lle yn ddistaw bach (7)
21. Digonedd (5)
23. Rhosyn o hogan 'roes arddangosfa ar gae criced ers talwm (5)
24. Ansoddair arall o enwad (5)
26. — donc sy'n torri cerrig (5)
28. Daw'r eglurhad o ymddygiad Pedr a Maldwyn o flaen y lenni (5)

CROESAIR RHIFYN Y NADOLIG



Derbyniwyd deg ymateb i groesair y Nadolig — ond doedd 'run ohonynt yn gywir!

Fel y bydd Dei Tomos yn bygwth weithiau yn y bore — 'Mae eisio

RHODDION

£5: William Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, Llanberis. Eirian a Staff Bron Eryri. John Morris, Rhiwen, Deiniolen. Glyn Roberts, Porthmadog.

£2: Mrs E. Jones, Lyndale, Llanrug.

chwpio'ch pen ola' chi, cans cam-ddarllen y Geiriadur Mawr sy'n gyfrifol am yr unig wall mewn pump o'r ceisiadau, ac mae'r un gwall, ynghyd â rhai eraill yn ymddangos mewn pedwar chynnyg arall.

Rwy'n cyfeirio at 6 i lawr, a'r ateb a gafwyd gennych, sef **WISER**. Nid dyna yw'r gair sydd yn y llyfr, ond cyfieithiad o **ULCER**, sef **WLSER**, dyna yw'r 'clwyf peryglus yn cynnwys gôr'.

Dim ond un ohonoch a lwyddodd i'w ddarllen yn gywir ond yn anffodus mae camgymeriadau eraill yn yr ymgais honno.

Dim gwobr y mis yma, felly, triwch eich lwc ar hwn.

Yr atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, erbyn Chwefror 21, os gwelwch yn dda.

Ymwelodd disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 Ysgol Gynradd Bethel â Gwasg Gwynedd ar fore lau, Ionawr 27ain i weld Eco'r Wyddfa yn cael ei argraffu.

Dyddiadur y Mis

MIS CHWEFROR

1 Mawrth. **PENISARWAUN**: Yr Urdd — 'Carioci'

3 Iau. **LLANBERIS**: Cyfarfod y Chwiorydd yn y Capel Coch am 2 o'r gloch. **DINORWIG**: Y Gymdeithas. Sgwrs gan Huw Jones, Llanwnda.

7 Llun. **WAUNFAWR**: Y Gymdeithas. Sgwrs — 'Teithwyr Cynnar Eryri' gan Edgar W. Parry. **LLANRUG**: Merched y Wawr. Darlith gan Mrs Rhianwen Huws Roberts — 'Lle'r ferch mewn llenyddiaeth. **PENISARWAUN**: Yr Urdd. Arddangosfa o fodolau peiriannau stêm.

14 Llun. **YR ARDAL**: Ymweliad Esgob Bangor. Gwasanaeth byr yn Eglwys Crist, Llandinorwig, am 11.30 y bore; cinio ysgafn i ddilyn. Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaidd yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun, am 4.30 y pŵn. Croeso i bawb.

15 Mawrth. **BETHEL**: Y Gymdeithas Lenyddol. Darlith gan Meinir Pierce Jones.

17 Iau. **DINORWIG**: Y Gymdeithas. Cwmni Drama Llanberis.

21 Llun. **DEINIOLEN**: Merched y Wawr. Sgwrs gan Duncan Brown. **BRYNREFAIL**: Sefydliad y Merched. Sgwrs gan Esme Dyson — 'Hen Bethau'. **WAUNFAWR**: Y Gymdeithas. Barddoni gyda Iolo Huws Roberts.

25 Gwener. **LLANRUG**: Plaid Cymru. Twmpath Dawns i ddathlu Gŵyl Ddewi.

28 Llun. **DEINIOLEN**: Y Gymdeithas. Sgwrs gan Miss Alice Williams.

MIS MAWRTH

1 Mawrth, Dydd Gŵyl Ddewi. **PENISARWAUN**: Ffair Llyfrau Cymraeg.

4 Gwener. **YR ARDAL**: Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd.



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/facs: 0286 672619

Richard S. Humphreys

**MODURDY
PLAS
BACH**

CAEATHRO

Ffôn: C'fon 672072

Gwerthu, Trwsio

Trin Cyrff

H.P. ar gael



**J.M.
JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael

Ffôn:

C'fon 672898 (dydd)

C'fon 676285 (nos)

CHWARAEON

Adref, Adref, Blant Afradlon...

Ar dudalen chwaraeon rhifyn y Nadolig fe ofynnais (â'm tafod yn fy moch) os oedd Clwb Criced Fron Dinas am symud eu 'cartref' i fro'r Eco. Os yw'r sibrydion a glywaf yn wir, mae'n ymddangos bod posibilrwydd i hynny ddigwydd. Clwb Cymdeithasol Fron Dinas fu'n rhentu tir i'r Clwb Criced gynnal eu gemau arno ers blyneddau, ac oddi wrth y Clwb hwnnw y cafodd y Clwb Criced ei enw wrth gwrs. Ond mae gorfod talu rhent yn gallu bod yn straen ar brydiau ar Glwb Criced 'bychan'. Gall yr arian a godir gan yr aelodau, yn bennaf trwy dâl aelodaeth, gael ei lyncu gan ofynion rhent. Ac mae'r sefyllfa felly yn ei gwneud hi'n anodd i'r Clwb ddatblygu adnoddau, yn arbennig o gofio y gallai golli defnydd o'r cae ar unrhyw adeg.

Mae chwaraewyr o Ddyffryn Nantlle, Dyffryn Peris a thref Caernarfon yn cynrychioli'r Clwb. A bu'r Clwb yn cynnal tîm ieuencid (o dan 16 oed) ers blyneddau, a nifer o'i chwaraewyr yn dod o Ysgol Brynrefail. Y gobaith yw bod y rhain yn mynd ymlaen wedyn i chwarae dros y ddau dîm hyn.

CHWARAE 'N DRE'

Bu'n fater o syndod i mi na chafwyd tîm criced yn nhref Caernarfon ers degawdau. Mewn llyfryn gwyb sy'n adrodd hanes canmlynedd cyntaf Clwb Criced Bangor mae J. B. Cowell yn sôn llawer am gemau cynnar yn erbyn tîm Caernarfon. Mewn gwirionedd, yr oedd tîm Caernarfon yn llogi chwaraewyr proffesiynol. Ers ei sefydlu nid yw Clwb Fron Dinas wedi ei ystyried ei

hun yn Glwb Criced y dref, ac efallai bod hyn wedi bod yn anfantais iddo wrth wneud ceisiadau am grantiau. Bu si ar un adeg am ddatblygu maes dros yr Aber — lle'r oedd cae pêldroed Coed Helen. Fe allai hynny fod wedi bod yn symudiad positif mewn dyddiau gwell yn economaidd.

CHWARAE ADRA

Ond yn ystod y tymhorau diwethaf bu stamp bro'r Eco i'w weld yn fwyfwy eglur ar y Clwb. Mae'n amlwg bod yna ddi-ddordeb mawr yn y gêm yn lleol. Bu timau blwyddyn 7 a blwyddyn 9 Ysgol Brynrefail yn llwyddiannus yn ddiweddar. Mae'n amlwg bod galw cynyddol am gael Clwb Criced yn y fro hon. Byddai'n gwneud synnwyr i ddatblygu maes criced ym mro'r Eco. Mae wiced bob tywydd ar gael yn Ysgol Brynrefail, ond teimlaf y byddai yn annheg ar hyn o bryd i gynyddu'r defnydd a wneir o adnoddau'r Ysgol gan fod cryn ddefnydd ohonynt gan dimau pêldroed y cylch.

A oes man arall ar gael?

Wn i ddim. Mae yna ryw beth i'w ddweud dros gael maes criced â golygfa dda yn gefndir iddo. Beth am gael maes wrth lan llyn, â'r Wyddfa yn ei hysblander yn gefndir iddo? Dim ond awgrymu ydw i. Ond gobeithio, os daw cais gan aelodau i sefydlu clwb criced yn y fro, y caiff y cais gefnogaeth gan yr asiantaethau priodol. Yn bendant byddai'n gaffaeliad gwerthfawr i'r ardal, yn enwedig i'r ieuencid. A phwy a wŷr, efallai y caf ddiweddu fy ngyrfa yn cynrychioli clwb fy mro fabwysiedig.

Y Cwpan Iau — Y Freuddwyd yn dal yn fyw!



Gwyndaf a Dewi — asgellwyr sy'n taro'r rhwyd yn gyson. Rŵan am Gaergybi!

Er i'r ddau dîm lleol — Llanrug a Deiniolen — gael gêm gartref yn rownd yr 16 olaf o Gwpan Iau Gogledd Cymru, cymysg fu eu hanes. Ffarwelio â'r gystadleuaeth fu rhaid i Lanrug ar ôl colli o 4-2 wedi amser ychwanegol yn y gêm yn erbyn Llansannan. 1-1 oedd y sgôr ar ddiwedd yr awr a hanner. Bu hyn yn dipyn o siom i Lanrug, a phawb wedi gobeithio am lwyddiant yn y Cwpan hwn eleni gan fod canlyniadau y gemau cynghrair mor anghyson.

Ond camodd Deiniolen i rownd yr

wyth olaf wedi buddugoliaeth glôs o 2-0 yn erbyn tîm ieuainc iawn Llanfairpwll. Erbyn hyn Deiniolen yw unig gynrychiolwr Cynghrair Sain yn y gystadleuaeth. Mae'r tîm eisoes wedi curo dau o dimau cryfaf Môn, Gwalchmai a Llanfairpwll, a thîm arall o'r ynys, Hotspurs Caergybi, fydd y gwrthwynebwyr gartref yn y rownd nesaf. Mae'n fantais i Deiniolen eu bod yn cael chwarae gartref, ond gallaf eu sicrhau o brofiad nad oes yr un tîm o Gaergybi yn debygol o roi'r ffidil yn y to tan y funud olaf. Mae gan John Williams, rheolwr Deiniolen, garfan iawn at ei alwad, ar wahân i Alwyn Williams sydd wedi ei wahardd rhag chwarae.

Wrth ddod at gemau allweddol y tymor bydd profiad yr hen bennau yn amhrisiadwy. Dangosodd Emlyn Jones ei sgiliau ar faes anodd yn erbyn Llanfair. Ac y mae'r chwaraewr troed chwith naturiol — Kevin Jones, Dilwyn Morris a Gwyndaf Jones — yn rhoi cydbwysedd da i'r tîm. Dau brif sgoriwr y tîm, Dewi Williams 20 gôl y tymor hwn a Gwyndaf Jones (15 gôl), a sgoriodd yn erbyn Llanfair.

O gofio lwc dda Deiniolen o gael chwarae gartref mewn nifer o gemau cwpan eleni, tybed ai hon fydd blwyddyn y 'Brasso'? Amser a ddengys.

GEMAU HEB FFINIAU 1994

Bydd Cyngor Bwrdeistref Arfon yn cystadlu yn y gyfres Gemau Heb Ffiniau eleni eto. Er mai dan enw Bangor y bydd y tîm yn cystadlu gall unrhyw un o drigolion y Fwrdeistref wneud cais i fod yn y tîm. Bydd angen tîm o wyth aelod — pedair merch a phedwar gŵr. Rhaid i'r aelodau fod dros 18 oed. Yn Malta y bydd y tîm yn cystadlu, rhwng Mehefin 8fed a 18fed eleni. Dyna dipyn o abwyd i ddenu pobl i gystadlu. Gofynnir i aelodau'r tîm fod ar gael hefyd rhwng Awst 29ain a Medi 3ydd yn y gobaith y llwyddir i gyrraedd y gemau terfynol a gynhelir bryd hynny. Os oes gan rywun awydd ceisio bod yn aelod o'r tîm dylai lenwi'r ffurflenni cais swyddogol erbyn Ionawr 29. Bydd gofyn i'r rhai a ddewisir fynychu un sesiwn ymarfer yr wythnos o hyn hyd fis Mehefin. O siarad â rhai a gymerodd ran yn y rhaglen o'r blaen gwn ei fod yn brofiad heb ei ail. Beth am fentro? Ond brysiwch!

Ceisiwch ragor o fanylion o Swyddfa'r Prif Swyddog Technegol, Swyddfa Arfon, Penrallt, Caernarfon, HEDDIW!

PWYSIG! PWYSIG!

O'r mis hwn ymlaen mae gan Adran Chwaraeon Eco'r Wyddfa ei chamera ei hun. Felly, gadewch i mi wybod am unrhyw stori a fydd gennych ar gyfer y dudalen chwaraeon. Cofiwch fy mod yn ceisio tynnu sylw at bob math o chwaraeon. Ac wrth gwrs, mae llun yn help i roi'r stori ar gof a chadw. Felly codwch y ffôn: (0248) 670115.

CWPAN COFFA GLYN PENNY



Yn ystod yr wythnos cyn y Nadolig cynhaliwyd rownd derfynol Cwpan Coffa Glyn Penny yn Ystafell Snwcer Llanberis. Cafwyd gêm gyffrous rhwng Alan Ellis a Noel Owen. Alan a enillodd o dair ffrâm i un.

Cofiwch bod yna groeso cynnes i aelodau newydd i ymuno â'r Clwb Snwcer. Byddai swyddogion y Clwb yn falch o weld rhai ifanc a rhai hyn yn dod i berthyn i'r Clwb. Cysylltwch ag Alan Jones, 1 Stryd y Dŵr am ragor o fanylion.

CYNGHRAIR STENA SEALINK

	Ch	E	C	Cd	Pt
Loco Llanberis.....	18	11	6	1	39
Llanfairfechan.....	20	10	4	6	34
Rhydymwyn.....	13	9	3	1	30
Bangor.....	18	8	4	6	28
Nefyn.....	16	8	4	4	28

CYNGHRAIR SAIN

	Ch	E	C	Cd	Pt
Caernarfon Boro.....	17	16	1	0	49
Deiniolen.....	16	13	2	1	41
Loco Llanb. Eil.....	18	13	2	3	41
Pesda Ath.....	18	10	4	4	34
Llanrug Eil.....	16	10	0	6	30

Dyma sut mae pen ucha cynghreiriau Stena a Sain yn edrych ar ddiwedd Ionawr. Mae pethau'n edrych yn bur dda i'r timau lleol. Daliwch ati hogia. Mae gobaith gwirioneddol am gael dathlu ar dudalen olaf yr Eco ar ddiwedd y tymor.